Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

Arolygiad o Ysbyty (Dirybudd)

Gwasanaethau Mamolaeth Ysbyty Singleton: Ward 18, Ward 19, Ward Esgor a'r Uned a Arweinir gan Fydwragedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Dyddiad arolygu: 24 – 26 Mehefin 2019

Dyddiad cyhoeddi: 27 Medi 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru

Parc Busnes Rhyd-y-car

Merthyr Tudful

CF48 1UZ

Neu

Ffôn: **0300 062 8163**

E-bost: **hiw@gov.wales**

Ffacs: **0300 062 8387**
Gwefan: **www.agic.org.uk**

ISBN Digidol 978-1-83933-250-0

© Hawlfraint y Goron 2019

Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom 5

2. Crynodeb o'n harolygiad 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym 8

Ansawdd profiad y claf 9

Darparu gofal diogel ac effeithiol 18

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth 28

4. Beth nesaf? 37

5. Sut rydym yn arolygu ysbytai 38

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad 39

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol 40

Atodiad C – Cynllun gwella 41

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn a wnawn**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- **Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gymesur.**

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:	**Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal.**
Hybu gwelliant:	**Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.**
Dylanwadu ar bolisi a safonau:	**Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.**

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Ysbyty Singleton, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, ar 24, 25 a 26 Mehefin 2019. Mae'r arolygiad hwn yn rhan o adolygiad cenedlaethol AGIC o wasanaethau mamolaeth ledled Cymru[1].

Ymwelwyd â'r wardiau ysbyty canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward 18 – ward ôl-enedigol (ar ôl esgor) ag 21 o welyau ac un ciwbicl a ddynodir fel ystafell brofedigaeth er mwyn i fenywod gael gofal yn ystod y cyfnod ôl-enedigol.
- Ward 19 – ward gynenedigol (cyn esgor) ag 16 o welyau
- Uned Asesu Cynenedigol â 4 gwely, wedi'i lleoli ar ward 19
- Ward esgor – (yn ystod esgor) â 10 o welyau, dau wely dibyniaeth uchel a thri gwely dibyniaeth isel (yn cael eu hadnewyddu ar hyn o bryd)
- Uned a arweinir gan fydwragedd â thri gwely ynghyd â dau bwll geni.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys tri o arolygwyr AGIC, tri adolygwr sy'n gymheiriaid clinigol (un obstetrydd ymgynghorol a dwy fydwraig) ac un adolygwr lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o reolwyr arolygu AGIC.

Ystyriodd AGIC i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o ysbytai yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

[1] https://agic.org.uk/adolygiad-cenedlaethol-o-wasanaethau-mamolaeth

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol â pharch ac urddas. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod angen gwneud gwelliannau er mwyn hybu gofal diogel ac effeithiol ymhellach i gleifion yn unol â chanllawiau cenedlaethol a'r Safonau Iechyd a Gofal.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y cleifion o'r farn bod y gofal a'r driniaeth a roddwyd yn ystod eu harhosiad yn yr ysbyty yn rhagorol, a gwelwyd adborth cadarnhaol ar y mentrau a oedd yn cael eu treialu
- Ar bob ward a arolygwyd roedd proses ddiogel a chadarn ar gyfer rheoli meddyginiaethau
- Roedd y ddogfennaeth o safon uchel iawn
- Cynigir Man Gwaith a Ffefrir[2] i aelodau o'r staff â phum mlynedd o wasanaeth neu fwy, gan hyrwyddo profiad a pherchenogaeth
- Nod y cynnydd diweddar yn nifer y meddygon ymgynghorol yw sicrhau bod meddyg ymgynghorol ar y safle i gefnogi'r ward esgor 24 awr y dydd.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

[2] Man Gwaith a Ffefrir – cyflwynwyd hyn ym mis Awst 2017 er mwyn rhoi'r opsiwn i fydwragedd a oedd wedi bod yn eu rôl ers pum mlynedd neu fwy i wneud cais i weithio yn y man a ffefrir ganddynt (cymunedol/ acíwt-cynenedigol/ôl-enedigol/yn ystod genedigaeth).

- Sicrhau bod yr arwyddion yn yr ysbyty yn hawdd i'w darllen i'r holl gleifion ac ymwelwyr â'r ysbyty a bod cyhoeddiadau llawr cywir yn y lifftiau i gleifion/ymwelwyr.
- Sicrhau bod gwybodaeth am broses gwynion y GIG ar gael a'i bod yn cael ei harddangos
- Ysmygu ger mynedfa'r uned
- Y broses o ran y pyllau geni a hyfforddiant i sicrhau diogelwch cleifion a'r staff
- Adolygu'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith[3] mewn cysylltiad â dyrannu bydwragedd cymunedol yn yr uned
- Archwilio'r trefniadau archwilio er mwyn sicrhau cysondeb a hyrwyddo rhannu a dysgu
- Y dull gweithredu ar gyfer y broses drosglwyddo feddygol
- Gweledegdd a phresenoldeb yr uwch-dîm rheoli yn yr uned er mwyn gwella morâl y staff.

[3] https://www.gov.uk/maximum-weekly-working-hours

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Ysbyty Singleton yn rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Cafodd y bwrdd iechyd ei greu ar 1 Ebrill 2019, ar ôl i'r cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau gofal iechyd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gael ei drosglwyddo o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i Fwrdd Iechyd newydd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Mae'r bwrdd iechyd yn gwasanaethu poblogaeth o oddeutu 390,000 yn ardaloedd Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe yn Ne-orllewin Cymru.

Mae gan y bwrdd iechyd dri ysbyty acíwt sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau, sef Ysbytai Singleton a Threforys yn Abertawe, ac Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ym Mhort Talbot. Ceir nifer o ysbytai cymunedol llai a chanolfannau adnoddau gofal sylfaenol sy'n darparu gwasanaethau clinigol y tu allan i'r tri phrif ysbyty.

Cynigir gwasanaethau mamolaeth i unrhyw fenywod a'u teuluoedd sy'n byw o fewn ffin ddaearyddol y bwrdd iechyd. Mae gwasanaethau mamolaeth hefyd yn darparu gofal i fenywod sy'n dewis rhoi genedigaeth yng nghyfleusterau'r bwrdd iechyd sy'n byw y tu allan i'r ffin ddaearyddol neu sy'n cael eu trosglwyddo i Ysbyty Singleton. Darperir hyn os bydd angen gofal ar eu baban ar lefel y tair uned gofal dwys newyddenigol ar gyfer rhanbarth Gorllewin Cymru a'r tu hwnt.

Yn 2018-19, bu cyfanswm o 5,574 o enedigaethau yn ardal hen Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. O'r ffigurau hyn, roedd 535 yn enedigaethau y tu allan i'r ardal.

Caiff menywod sy'n rhoi genedigaeth o fewn y bwrdd iechyd ddewis o blith pedwar lleoliad geni. Mae'r rhain yn cynnwys geni yn y cartref, uned bydwreigiaeth annibynnol yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot, uned bydwreigiaeth ochr-yn-ochr (AMU) ac Uned Obstetreg (OU) yn Ysbyty Singleton. Mae'r Uned Obstetreg ar gael i bob lleoliad gofal yn ystod genedigaeth a arweinir gan fydwragedd pan fydd cymhlethdodau wrth esgor.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Roedd y cleifion yn gadarnhaol ynghylch eu profiad cyffredinol o'r gwasanaeth. Yn ddieithriad, dywedodd y cleifion wrthym eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch bob amser.

Gwnaethom argymell y dylai gwybodaeth am y ffordd y gall y cleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr godi pryderon am eu gofal fod ar gael yn rhwydd ac i'w gweld yn glir.

Dylai'r cleifion a'u teuluoedd gael gwybod hefyd am y Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) sy'n cynnig gwasanaethau eirioli a chymorth.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, teuluoedd a gofalwyr er mwyn cael eu barn ar safon y gofal a ddarperir i gleifion. Cwblhawyd cyfanswm o wyth holiadur. Gwnaethom hefyd siarad ag wyth claf bob dydd ar gyfartaledd yn ystod yr arolygiad.

Roedd y cleifion a gwblhaodd holiaduron o'r farn bod y gofal a'r driniaeth a roddwyd yn ystod eu harhosiad yn yr uned famolaeth yn ardderchog (nodwyd sgoriau o wyth allan o 10 ac uwch). Dywedodd y cleifion a'u teuluoedd y gwnaethom siarad â nhw hefyd y cawsant brofiad da ym mhob rhan o'r uned. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

> *“Mae pob aelod o'r staff wedi bod yn hynod gefnogol a gwybodus, ac wedi ein galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus."*
>
> *"Arhosodd y fydwraig y tu hwnt i'w horiau gwaith. Roedd hi'n anhygoel."*
>
> *“Mae'r staff yn mynd yr ail filltir, mae'r gofal i gleifion yn gyson ac mae'r cleifion yn hapus iawn â'r gofal maen nhw'n ei gael."*
>
> *"Mae gennym ni hyder yn y bydwragedd a'r staff meddygol sy'n gofalwyd amdanon ni."*
>
> *"Mae'r bydwragedd a'r staff meddygol yn rhoi gofal rhagorol."*

Cadw'n iach

Nid oedd hawl ysmygu yn yr ysbyty. Roedd hyn yn ymestyn hefyd i ddefnyddio anwedd/e-sigaréts. Fodd bynnag, gwelwyd cleifion yn ysmygu wrth fynedfa'r uned, yn groes i Reoliadau Mangreoedd Di-fwg (Cymru) 2007[4]. Gwnaethom gynghori'r bwrdd iechyd i ystyried sut y gellid sicrhau nad oes neb yn ysmygu yn yr ardal.

Gofal ag urddas

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom lawer o enghreifftiau o'r staff yn ymddwyn yn garedig ac yn dosturiol tuag at y cleifion. Gwelsom y staff yn trin y cleifion â pharch, cwrteisi a moesgarwch bob amser. Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau yn holiaduron y cleifion yn gadarnhaol.

Gwnaethom hefyd weld y staff yn hybu preifatrwydd ac urddas wrth helpu'r cleifion gyda'u gofal personol. Gwnaethom adolygu'r dogfennau gofal ac ni welsom unrhyw feysydd a oedd yn peri pryder.

Cadarnhaodd hanner y cleifion a gwblhaodd yr holiadur eu bod wedi cael cynnig yr opsiwn o gyfathrebu â'r staff yn eu dewis iaith. Dywedodd ychydig dros draean o'r cleifion nad oeddent yn gallu cofio.

Roedd yr holiaduron yn holi'r cleifion a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â nifer o ddatganiadau am y staff mamolaeth. Dywedodd pob un o'r cleifion ond un fod y staff bob amser yn gwrtais ac yn gwrando arnyn nhw a'u ffrindiau a'u teuluoedd. Yn ogystal, dywedodd pob un o'r cleifion fod y staff yn cyfeirio atynt gan ddefnyddio eu henw dewisol a'u bod wedi esbonio eu hopsiynau geni, unrhyw risgiau a oedd yn gysylltiedig â'u beichiogrwydd a'r cymorth a gynigiwyd iddynt.

Gofal cynenedigol

Dywedodd hanner y cleifion a gwblhaodd holiaduron wrthym na wnaethant weld yr un fydwraig yn yr uned famolaeth ag y gwnaethant yn eu hapwyntiadau cynenedigol. Roedd y mwyafrif o'r cleifion wedi bod yn feichiog ers rhwng chwech a deuddeg wythnos pan gawsant eu hapwyntiad cyntaf. Dywedodd pob un o'r cleifion ond un eu bod wedi cael cynnig dewis ynghylch ble i roi genedigaeth i'w

[4] https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2007/787/contents/made

baban, gan ddweud bod y fydwraig wedi gofyn iddynt sut roeddent yn teimlo ac yn ymdopi'n emosiynol yn ystod y cyfnod cynenedigol.

Gofal esgor

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod bydwraig wedi aros gyda nhw yn ystod y cyfnod esgor. Roedd y cleifion hefyd o'r farn y cawson nhw a'u partneriaid ddigon o gymorth gan y staff i'w helpu i ymdopi â phoen esgor. Dywedodd y cleifion hefyd fod y ddarpariaeth lleddfu poen a gawsant yn ystod y cyfnod esgor yn ddigonol. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod angen i efel/dyfais *ventouse*[5] gael ei defnyddio er mwyn eu helpu i roi genedigaeth.

Gofal ôl-enedigol

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod partner geni wedi cael aros gyda nhw am gymaint o amser ag yr oeddent yn dymuno. Dywedodd pob un o'r cleifion ond un eu bod wedi aros am fwy na 24 awr ar ôl rhoi genedigaeth.

Dywedodd y cleifion fod y bydwragedd wedi trafod y newidiadau emosiynol y gallant eu profi ar ôl rhoi genedigaeth â nhw. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd fod y bydwragedd wedi eu helpu i fwydo eu baban drwy'r dull o'u dewis a'u bod yn parchu eu penderfyniad.

Gwybodaeth i gleifion

Gwelsom nad oedd y cyfarwyddiadau i'r uned famolaeth yn cael eu harddangos yn glir ym mhob rhan o'r ysbyty. Gallai hyn ei gwneud hi'n anodd i bobl ddod o hyd i'r lle priodol i dderbyn gofal. Roedd y lifftiau yn cael eu defnyddio i gael mynediad at loriau uwch ac is. Fodd bynnag, gwelsom fod yr arwyddion yn ddryslyd gan nad oeddent yn dangos yn glir pa ward/adran a oedd ar ba lawr. Gallai hyn beri problemau i bobl o ran dod o hyd i'r ward gywir.

[5] https://www.nhs.uk/conditions/pregnancy-and-baby/ventouse-forceps-delivery/

Roedd hysbysfyrddau ym mhob rhan o'r uned yn tynnu sylw at rai eitemau hybu iechyd, megis gwybodaeth am fwydo ar y fron, y llyfr Naw Mis a Mwy[6] a gwybodaeth am roi'r gorau i ysmygu, ond nid oedd hyn yn gyson ym mhob rhan o'r uned. Roedd hefyd brinder o fanylion staffio dyddiol megis enw a dynodiad yr aelod o'r staff, er mwyn i'r cleifion a'u teuluoedd gael gwybod pwy sy'n gofalu amdanynt.

Roedd amseroedd ymweld yn cael eu harddangos yn yr uned a dywedodd y staff wrthym y gallai'r amseroedd hyn gael eu haddasu pe bai cleifion yn gofyn.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r gwasanaethau cyfieithu yn y bwrdd iechyd a sut y gellir cael gafael ar y rhain. Gellid adnabod bydwragedd Cymraeg hefyd o'r logo siaradwr Cymraeg[7] ar eu gwisg.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Mae arwyddion yn yr ysbyty yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn hawdd i'w darllen i'r holl gleifion ac ymwelwyr â'r ysbyty
- Adolygir hysbysfyrddau er mwyn darparu gwybodaeth hybu iechyd megis iechyd meddwl ôl-enedigol, mentrau cyfeillgar i fabanod UNICEF[8] a grwpiau cymorth.
- Mae gwybodaeth am y staff yn cael ei harddangos i'r cleifion.

Cyfathrebu'n effeithiol

[6] Ysgrifennwyd y llyfr hwn gan rieni, gweithwyr iechyd proffesiynol a seicolegwyr plant ac mae'n cynnwys llawer o wybodaeth ddefnyddiol a fydd yn cefnogi rhieni ar hyd y llwybr o feichiogrwydd cynnar i'r dyddiau cyntaf gyda'r baban ac i flynyddoedd cyntaf y plentyn.

7 Mae brand Iaith Gwaith yn ffordd hawdd o hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg drwy nodi'r siaradwyr Cymraeg yn eich tîm. Os yw rhywun yn gwisgo bathodyn, neu laniard, mae hyn yn dangos y gallant sgwrsio yn Gymraeg.

[8] https://www.unicef.org.uk/babyfriendly/

Ar y cyfan, roedd yn ymddangos bod y cleifion yn teimlo'n gadarnhaol am y rhyngweithio rhyngddynt â'r staff yn ystod eu cyfnod yn yr uned. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod bob amser yn gallu siarad â'r staff pan oedd angen iddynt wneud hynny. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion hefyd eu bod yn teimlo bod y bydwragedd a'r staff wedi gwrando arnynt yn ystod eu harhosiad. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym hefyd fod y staff bob amser wedi siarad â nhw am eu dewisiadau geni.

Dywedodd y staff ar bob ward wrthym fod y bydwragedd a'r staff meddygol yn cyfarfod ar wahân ar adegau penodedig bob dydd pan fyddai sifftiau'n newid. Gwnaed hyn er mwyn rhannu a thrafod anghenion a chynlluniau'r cleifion, risgiau perthnasol, unrhyw faterion yn ymwneud â diogelwch, a chynnal parhad gofal. Hefyd, gwelsom fod y staff yn gallu cael gafael ar daflenni trosglwyddo cleifion wedi'u paratoi, a oedd yn cael eu diweddaru'n ddyddiol, fel bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o wybodaeth allweddol am driniaethau'r cleifion, eu cynlluniau gofal ac unrhyw faterion pwysig.

Roedd gan bob ward fwrdd cipolwg ar statws cleifion,[9] a oedd yn cael ei ddefnyddio bob dydd gan dimau amlddisgyblaethol. Roedd y byrddau hyn yn nodi materion ynglŷn â diogelwch cleifion a gofynion/cynlluniau gofal dyddiol yn glir, yn ogystal â'r cymorth unigol angenrheidiol a'r trefniadau rhyddhau cleifion.

Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r staff yn ceisio cynnal cyfrinachedd cleifion wrth rannu gwybodaeth. Gwnaethom sylwi ei bod yn arfer cyffredin i'r staff gau'r llenni o amgylch gwelyau cleifion am y ward wrth ddarparu gofal personol a chymorth er mwyn diogelu eu preifatrwydd a'u hurddas. Fodd bynnag, dywedodd rhai cleifion y gwnaethom siarad â nhw y byddai'n well ganddynt gadw'r llenni ar agor. Cydnabu'r staff hefyd y gallai cau'r llenni achosi i gleifion deimlo'n unig o bosibl. Cynghorir y bwrdd iechyd i adolygu'r trefniadau hyn ac ystyried dymuniadau'r cleifion ochr yn ochr â threfniadau i ddiogelu eu preifatrwydd a'u hurddas.

[9] Mae'r Bwrdd Cipolwg ar Statws Cleifion yn cael ei ddefnyddio ar wardiau ysbyty er mwyn arddangos gwybodaeth bwysig am gleifion megis: lefelau risg o haint, symudedd, llif derbyn a rhyddhau, nifer y gwelyau llawn, timau nyrsio a meddygol, ymhlith pethau eraill.

Dywedodd rhai o'r staff wrthym hefyd y byddent yn defnyddio 'Horizon[10]' er mwyn cyfleu gwybodaeth i gleifion yn electronig, a nodwyd gennym fel arfer da. Roeddem hefyd yn gallu cael mynediad at y dudalen we ar gyfer y gwasanaethau a dywedwyd wrthym fod tudalen cyfryngau cymdeithasol ar Facebook.

Gofal amserol

Nodwyd bod y bwrdd iechyd wrthi'n recriwtio bydwragedd i lenwi pum swydd wag gyfwerth ag amser llawn. Dywedodd yr uwch-dîm rheoli wrthym eu bod yn gobeithio y byddai'r swyddi hyn yn cael eu llenwi erbyn mis Medi 2019. Rhoddwyd sicrwydd i ni hefyd fod y risgiau sy'n gysylltiedig â swyddi gwag yn cael eu cynnwys yng nghofrestr risg yr uned a'u bod yn cael eu rheoli'n briodol er mwyn sicrhau gofal diogel ac amserol.

Gwelsom fod pob ward yn sicrhau'n rheolaidd fod anghenion personol cleifion, a'u hanghenion o ran maeth yn cael eu bodloni, a'u bod yn gyfforddus. Cadarnhawyd hyn gan yr enghreifftiau o gofnodion gofal cleifion a adolygwyd gennym, a hefyd drwy siarad â chleifion.

Gwelwyd ei bod yn hawdd cael gafael ar glychau galw a bod y staff yn ymateb iddynt yn amserol pan fyddent yn cael eu defnyddio. Roedd dŵr, diodydd poeth a dewis llawn o fwyd oer a phoeth ar gael 24 awr y dydd, gan gynnwys opsiynau llysieuol, figan a halal.

O fewn y sampl o gofnodion gofal cleifion a welwyd gennym, gwelsom fod adnodd sgrinio[11] ar gyfer sepsis[12] ar gael o fewn Sgôr Rhybudd Cynnar Cenedlaethol (NEWS) Cymru Gyfan[13] (siartiau arsylwadau hanfodol cleifion). Roedd y staff yn ymwybodol o'r system sgrinio a chofnodi ar gyfer sepsis. Roedd y camau gweithredu angenrheidiol ar gyfer claf â sepsis yn cael eu harddangos

[10] Mae Horizon yn rhaglen electronig am ddim i ddarparu gwybodaeth am bob agwedd ar ofal bydwreigiaeth i fenywod.

[11] Cymhlethdod difrifol yn dilyn haint yw sepsis. Heb ei drin yn gyflym, gall sepsis beryglu bywyd.

[12] Adnodd Sgrinio Sepsis

[13] Siartiau Sgôr Rhybudd Cynnar Cenedlaethol (NEWS).

yn yr ystafelloedd triniaeth. Nod hyn yw nodi cleifion a all fod yn datblygu sepsis, er mwyn sicrhau y gellir cynnal adolygiad meddygol a'u trin yn brydlon.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwelsom dystiolaeth ym mhob rhan o'r uned fod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn hybu gofal unigol bob amser, gan gynnwys teilwra gofal i gleifion ag anghenion cyfathrebu penodol.

Gwelsom fod yr uwch-staff meddygol a bydwreigiaeth yn hybu gofal a dewisiadau unigol i gleifion. Roedd cymorth partner geni yn cael ei hybu hefyd.

Gwelsom ei bod yn hawdd i bawb gael gafael ar y cyfleusterau ym mhob rhan o'r uned.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion yn yr uned a gwelsom dystiolaeth o ofal unigol ym mhob un ohonynt. Roedd y cynlluniau gofal hefyd yn adlewyrchu'r pwyslais ar hybu annibyniaeth pobl yn seiliedig ar asesiad o'u galluoedd.

Hawliau pobl

Roedd teuluoedd/gofalwyr yn gallu rhoi cymorth i gleifion a chwarae rhan yn eu gofal yn unol â dymuniadau a dewisiadau'r cleifion. Roedd y trefniadau hyn yn cael eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion, a hynny er mwyn sicrhau bod pob aelod o dîm y ward yn cael gwybod am ddewisiadau'r cleifion.

Dywedodd y staff a'r cleifion wrthym fod trefniadau ymweld agored ar gael, gan ganiatáu i'r partner, neu rywun dynodedig arall, i ymweld rhwng 10am a 8.30pm. Dywedodd y staff wrthym y gallai partneriaid geni aros gyda'r claf yn ystod y cyfnod esgor. Fodd bynnag, nodwyd o sgyrsiau eraill â chleifion a'r staff fod rhai cleifion yn teimlo'n anesmwyth pan oedd ymwelwyr â chleifion eraill yn aros am gyfnodau hir (gan gynnwys dros nos) yn ardaloedd agored y ward. Cynghorir y bwrdd iechyd i ystyried sut y gellir hwyluso trefniadau ymweld agored ar yr un pryd â diogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion eraill ar y ward.

Roedd yr ysbyty'n darparu gwasanaeth caplaniaeth ac roedd ganddo gapel ysbyty. Ar y ward esgor, roedd ystafell brofedigaeth ar gael i gleifion a theuluoedd, pe bai ei angen rywbryd. Oherwydd y gwaith adnewyddu presennol ar y ward esgor, dywedwyd wrthym nad oedd yr ystafell hon yn cael ei defnyddio ar hyn o bryd. Fodd bynnag, esboniodd y staff fod dwy ystafell arall ar gael a fyddai'n addas i'w defnyddio yn ôl yr angen. Roedd gan yr uned fydwraig

ddynodedig ar gyfer profedigaethau a fyddai'n rheoli ac yn arwain unrhyw gymorth angenrheidiol.

Dywedwyd wrthym am drefniadau i alluogi cleifion o grefyddau gwahanol i ddefnyddio'r ystafelloedd gweddïo er mwyn diwallu eu hanghenion ysbrydol.

Gwrando a dysgu o adborth

Dywedodd y staff wrthym fod tîm Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion[14] yn yr ysbyty. Ei rôl oedd sicrhau y rhoddir pwyslais ar gael barn pobl ar y gofal a'r gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu. Dywedwyd wrthym fod unrhyw wybodaeth a oedd yn cael ei rhoi i'r tîm Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion (boed hynny'n gadarnhaol neu'n negyddol), yn cael ei rhannu â thimau wardiau.

Roedd rheolwyr a staff y ward yn annog cleifion i wneud sylwadau am eu gofal bob mis. Roedd y rhain yn cael eu dadansoddi ac roedd camau priodol yn cael eu cymryd lle y bo hynny'n bosibl. Roedd menter Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni, sy'n amlygu newidiadau a wnaed o ganlyniad i adborth, yn cael ei defnyddio yn yr uned. Dywedodd y staff a gwblhaodd holiadur eu bod yn ymwybodol bod adborth ar brofiad cleifion yn cael ei gasglu ar eu ward.

Dywedodd y mwyafrif o'r staff hefyd eu bod yn cael diweddariadau rheolaidd ar yr adborth ar brofiad cleifion ac roeddent yn teimlo ei fod yn cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth yn eu maes gwaith. Adroddwyd ar yr adborth hwn mewn cyfarfodydd tîm. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw wybodaeth glir yn cael ei harddangos i roi gwybod i gleifion a theuluoedd am yr hyn a ddysgwyd a'r camau gweithredu a oedd yn deillio o adborth cleifion. Gwnaethom gynghori'r bwrdd iechyd y dylid ystyried hyn.

Gwelsom nad oedd unrhyw wybodaeth yn cael ei harddangos am broses Gweithio i Wella GIG Cymru[15] ar bob ward er mwyn rhoi gwybod i bobl sut i godi pryder. Nid oedd taflenni Gweithio i Wella ar gael yn hawdd ychwaith, dim ond drwy ofyn i'r staff. Roedd hyn yn golygu nad oedd cleifion na'u teuluoedd yn cael gwybodaeth glir am sut i godi unrhyw bryderon/cwynion a allai fod ganddynt.

---

[14] http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/863/page/92890

[15] Mae Gweithio i Wella yn ymwneud â'r prosesau integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt a dysgu ohonynt yn y GIG ledled Cymru.

Dywedodd y staff wrthym nad oeddent fel rheol yn rhoi manylion i gleifion am y Cyngor Iechyd Cymuned[16] a allai gynnig gwasanaethau eirioli a chymorth i godi pryder am eu gofal.

Dywedodd y staff wrthym fod cyfathrebu parhaus â chleifion a theuluoedd drwy gydol unrhyw achos lle roedd pryder wedi dod i law, a'u bod hefyd yn cael y cyfle i gyfarfod ag uwch-aelodau o'r staff er mwyn trafod eu pryderon ymhellach. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod adborth yn dod i law drwy'r Prawf Ffrindiau a Theulu[17].

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Caiff gwybodaeth yn disgrifio sut y gall cleifion a theuluoedd/gofalwyr godi pryder am eu gofal ei harddangos yn glir, ac mae ar gael yn hawdd iddynt.
- Rhoddir gwybod i gleifion a theuluoedd am y Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) sy'n cynnig gwasanaethau eirioli a chymorth.

[16] http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/899/home

[17] Mae'r Prawf Ffrindiau a Theulu yn holiadur a gyflwynwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe er mwyn cael adborth, barn a sylwadau ar y gwasanaethau, y gofal a gafwyd a'r gwelliannau y gellid eu gwneud.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Nodwyd bod rhai prosesau da ar waith yn yr uned a arolygwyd gennym, megis trefniadau cadarn ar gyfer rheoli meddyginiaethau ac asesu poen.

Gwelsom fod diogelwch cleifion yn cael ei hybu mewn cynlluniau gofal dyddiol ac ategwyd hyn gan y cofnodion meddygol a adolygwyd gennym.

Gwelsom fod angen cysondeb wrth gynnal gwiriadau meddyginiaeth ar gyfer cyffuriau a reolir.

Roedd angen adolygiad o lefelau staffio ac aciwtedd cleifion mewn ymateb i'r broses ddiweddar o ad-drefnu gwasanaethau, gan gynnwys gofynion staffio ar wahân ar gyfer toriadau cesaraidd dewisol.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Gwelsom fod yr uned yn amlwg yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda, ei bod yn lân, a'i bod wedi'i goleuo'n briodol a'i hawyru'n dda. Roedd yr uned yn drefnus iawn gyda stoc o nwyddau meddygol yn cael ei chynnal. Er i ni weld yn gyffredinol fod diogelwch yn cael ei ystyried ym mhob rhan o'r uned, daethom o hyd i gwpwrdd heb ei gloi ac ar agor a oedd yn storio cemegau glanhau, gwybodaeth a allai adnabod cleifion a gronynnau coffi. Roedd hyn yn golygu nad oedd gwybodaeth a allai adnabod cleifion yn ddiogel. Yn ogystal, mae storio bwyd yn yr un lle â chynhyrchion glanhau'n risg i iechyd a diogelwch. Codwyd y mater hwn ar adeg yr arolygiad a chafodd ei unioni ar unwaith.

Wrth gyrraedd, gwelsom fod y gwaith adnewyddu presennol ar y ward esgor yn golygu bod cyfarpar a gwelyau yn y coridorau. Fodd bynnag, esboniodd y staff fod asesiad risg wedi'i gynnal yn hyn o beth ac nad oedd yn peryglu'r cleifion na'r staff. Gwelsom nad oedd unrhyw annibendod ar Ward 18 na Ward 19 a bod yr amgylchedd ym mhob rhan o'r uned yn daclus.

Gwelsom fod drysau'n cael eu dal ar agor ar y ward esgor, gan olygu y byddai risg bosibl i ddiogelwch y cleifion a'r staff pe bai tân. Cafodd hyn ei uwchgyfeirio ar unwaith ar adeg yr arolygiad a chafodd y drysau eu cau wedyn.

Nodwyd gennym hefyd wrth i ni gyrraedd yr uned ei bod yn ymddangos bod cyfnod esgor llawer o gleifion wedi cael ei ysgogi, ac roedd manylion hyn ar y bwrdd cipolwg ar statws cleifion. Fodd bynnag, gwelsom yn ddiweddarach nad oedd hyn yn cyfateb i'r wybodaeth a oedd yn cael ei dangos ar y dangosfwrdd a ddatblygwyd yn ddiweddar (Adnodd Perfformiad Llywodraethu Clinigol). Er ein bod yn deall na fwriedir i'r dangosfwrdd hwn arddangos data byw, roeddem yn teimlo bod potensial ar gyfer dryswch rhwng y ffynonellau hyn o wybodaeth/data cleifion.

Trafodwyd nifer yr achosion o ysgogi cyfnod esgor â'r cydgysylltydd sifftiau a rhoddwyd sicrwydd i ni fod staff cymuned wedi cael eu hailddyrannu er mwyn ymdrin â'r sefyllfa. Fodd bynnag, gallai hyn fod wedi cael effaith ar ofal diogel o hyd, oherwydd nifer yr oriau y dywedodd rhai bydwragedd wrthym eu bod yn gweithio, o ganlyniad i gael eu hailddyrannu i'r safle acíwt, a'r blinder y maent yn ei brofi yn ystod y cyfnodau hyn.

Gwnaethom hefyd gadarnhau o'r trafodaethau nad oedd trefniadau arwain yr elfen brysbennu cleifion ar Ward 19 yn addas at y diben. Roedd yr uwch-dîm rheoli yn teimlo bod yr ardal brysbennu yn gweithio mewn theori ond cadarnhaodd y staff nad oedd yn gweithio yn ymarferol. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom aelod anghlinigol o'r staff yn rhoi cyngor i famau beichiog dros y ffôn gan fod y fydwraig brysbennu yn brysur, a dywedodd y fydwraig wrthym fod hyn yn arfer cytunedig yn yr ardal brysbennu. Dywedodd y fydwraig brysbennu a oedd ar ddyletswydd wrthym ei bod hi hefyd yn ei chael hi'n anodd cynnal cydbwysedd gwaith cadarnhaol oherwydd yr holl waith a ddyrannwyd iddi hi ar ei phen ei hun yn ystod un sifft. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod y system frysbennu wrthi'n cael ei hadolygu a bod hyn yn flaenoriaeth er mwyn sicrhau bod trefniadau diogelwch a llywodraethu priodol ar waith.

Gwelsom fod bydwragedd yn cefnogi menywod yn yr adran adfer ar ôl iddynt gael llawdriniaeth toriad cesaraidd. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym nad ydynt yn cael hyfforddiant parhaus i sicrhau bod cymwyseddau digonol yn cael eu cynnal. Esboniodd y staff hefyd y gofynnir i fydwragedd ar achlysuron gefnogi'r tîm llawfeddygol yn ystod triniaethau (dyletswyddau sgwrio), heb fod cymwyseddau yn cael eu cynnal yn briodol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Dylid storio deunyddiau glanhau a bwyd yn briodol
- Dylid asesu a monitro'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gwaith adnewyddu presennol a gweithredu arnynt er mwyn cynnal diogelwch.
- Dylid parhau i gau drysau yn ddiogel er mwyn cynnal diogelwch ym mhob rhan o'r uned.
- Dylid rheoli achosion o ysgogi cyfnod esgor yn briodol, a dylai staff addas fod ar gael i ddiwallu anghenion cleifion.
- Dylid sicrhau bod ffynonellau gwybodaeth sy'n berthnasol i gleifion, gan gynnwys gwybodaeth fyw a defnyddio data ôl-weithredol, yn gyson ac yn eglur. Dylai unrhyw staff sy'n cyflawni'r dyletswyddau hyn mewn theatrau a'r adran adfer fod wedi cael yr hyfforddiant priodol a dylent fod yn gymwys i gyflawni'r rôl hon.

Atal a rheoli heintiau

Gwelsom fod yr ardaloedd clinigol yn lân ac yn daclus. Dywedodd y cleifion a gwblhaodd holiadur a'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod o'r farn bod y wardiau'n hynod lân a thaclus.

Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol ar gael ym mhob ardal a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n briodol gan bob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol. Gwelsom fod y staff yn cydymffurfio â pholisïau rheoli heintiau.

Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael, ynghyd â phosteri a oedd yn dangos y weithdrefn gywir ar gyfer golchi dwylo. Gwelsom fod y staff yn golchi eu dwylo'n briodol ac yn defnyddio gel saniteiddio ar gyfer y dwylo pan fo angen hynny. Gwelsom hefyd fod gwelyau cleifion yn cael eu glanhau bob tro ar ôl iddynt gael eu defnyddio. Yn ogystal, gwelwyd bod y staff meddygol a'r bydwragedd yn cadw at y gofynion i fod yn noeth o dan y penelin ac yn arfer hynny. Fodd bynnag, ni wnaethom lwyddo i gael sicrwydd bod archwiliadau ar gyfer mesur atal heintiau, megis noeth o dan y penelin, wedi cael eu cwblhau gan na ddarparwyd y rhain ar adeg yr arolygiad. Fodd bynnag, dywedodd yr uwch-dîm rheoli wrthym fod tîm atal heintiau'r bwrdd iechyd yn cwblhau'r rhain yn rheolaidd ac yn adrodd arnynt bob mis.

Gwelsom fod labeli penodol ar gyfarpar i ddynodi ei fod yn lân ac yn barod i'w ddefnyddio. Gwelsom fod amserlenni glanhau ar gyfer yr uned ar waith ac yn gyfredol.

Rhoddwyd sicrwydd i ni hefyd fod hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau yn cael ei gwblhau yn amserol, ac y byddai unrhyw bryderon a godwyd am atal a rheoli heintiau yn cael eu huwchgyfeiro i uwch-aelodau o'r staff.

Maeth a hydradu

Dywedodd y cleifion a gwblhaodd holiadur, a'r rhai y gwnaethom siarad â nhw, eu bod yn cael digon o amser i fwyta eu bwyd ar eu cyflymder eu hunain a bod dŵr ar gael iddynt. Roedd bwyd poeth ac oer hefyd ar gael y tu allan i oriau gwaith craidd y gwasanaethau arlwyo, a oedd yn golygu bod modd diwallu anghenion maethol drwy gydol y dydd a'r nos. Gwelsom fod gan bob un o'r cleifion jygiau dŵr, a bod diodydd yn cael eu gosod o fewn cyrraedd hawdd pan fo'n briodol. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion eu bod yn cael dewis o brydau bwyd bob dydd a'u bod yn fodlon ar y bwyd. Yn ogystal, dywedodd y cleifion nad oedd yn rhaid iddynt aros yn hir cyn i'w prydau bwyd gael eu gweini iddynt.

Yng nghofnodion gofal y cleifion a adolygwyd gennym, gwelsom fod gofynion y cleifion o ran maeth a hylifau yn cael eu dogfennu'n dda.

Rheoli meddyginiaethau

Yn gyffredinol, gwelsom fod meddyginiaethau'n cael eu storio'n gywir ac yn ddiogel, gan gynnwys gwirio tymheredd y feddyginiaeth a oedd yn cael ei storio bob dydd. Roedd cyffuriau a reolir yn cael eu storio'n ddiogel ac roedd gwiriadau dyddiol (dros y mis diwethaf) ar waith. Fodd bynnag, gwelsom fod un bwlch yn y gwiriad dyddiol o gyffuriau a reolir ar Ward 19. Tynnwyd sylw'r uwch-dîm rheoli at hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad. Dywedwyd wrthym fod y staff yn cael eu hatgoffa o bwysigrwydd y weithdrefn hon a bod yn rhaid ei chynnal bob dydd. Dywedwyd wrthym hefyd fod hyn bellach yn cael ei gynnwys yng nghyfarfodydd trosglwyddo dyddiol y staff er mwyn ategu cydymffurfiaeth.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion meddyginiaeth a gwelsom fod y rhain wedi cael eu cwblhau'n briodol. Roeddent yn cael eu llofnodi a'u dyddio'n gyson pan oedd meddyginiaeth yn cael ei rhagnodi a'i rhoi. Gwelsom feddyginiaeth yn cael ei rhoi i gleifion ar Ward 18 a bod gwiriadau priodol wedi cael eu gwneud gan y staff i gefnogi'r broses o roi meddyginiaethau'n ddiogel. Fodd bynnag, ar y ward esgor, gwelsom nad oedd meddyginiaethau personol un claf wedi cael eu rhoi dan glo a'u bod wedi cael eu gadael ar ben locer wrth ymyl y gwely. Tynnwyd

sylw'r fydwraig â chyfrifoldeb at hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad. Cafodd y feddyginiaeth ei rhoi dan glo ar unwaith a dywedwyd wrthym fod y staff wedi cael eu hatgoffa o bwysigrwydd cynnal diogelwch o ran meddyginiaethau yr oedd yn hawdd cael gafael arnynt a'r gofyniad i wneud hyn. Dywedwyd wrthym hefyd fod hyn bellach yn cael ei gynnwys yng nghyfarfodydd trosglwyddo dyddiol y staff er mwyn ategu cydymffurfiaeth.

Roedd gan yr uned dechnegydd fferyllfa a fyddai'n ymweld bob dydd yn ystod oriau gwaith er mwyn adolygu lefelau stoc. Dywedwyd wrthym fod fferyllydd ar alw ar gael er mwyn cael gafael ar feddyginiaethau y tu allan i oriau ac roedd hyn yn gyson â'r polisi lleol.

Roedd unrhyw ocsigen a roddwyd wedi'i ragnodi'n briodol, ac roedd yr ocsigen a roddwyd yn cael ei fonitro a'i gofnodi yn y cofnodion meddyginiaeth. Roedd hylifau mewnwythiennol yn cael eu rhagnodi'n briodol yn ôl yr angen, ac roeddent hefyd yn cael eu monitro a'u cofnodi.

Roedd polisi rheoli meddyginiaethau'r bwrdd iechyd ar gael yn electronig ac roedd hefyd yn cael ei storio mewn ffeil ar bob ward.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Dylid cynnal gwiriadau meddyginiaeth ar gyfer cyffuriau a reolir yn gyson
- Dylid storio meddyginiaeth y cleifion eu hunain yn ddiogel.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Roedd gan y bwrdd iechyd bolisi a gweithdrefnau ar waith i hybu a diogelu lles plant ac oedolion a oedd mewn perygl neu'n agored i niwed. Roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion ac roedd eu hyfforddiant yn cael ei ddiweddaru.

Dywedodd y cleifion eu bod yn teimlo'n ddiogel ac y byddent yn gyfforddus yn siarad ag aelod o'r staff petai angen. Gwelsom fod y staff yn ymwybodol o weithdrefnau diogelu, gan gynnwys sut y byddent yn rhoi gwybod am unrhyw amheuon honedig neu achosion hysbys o gam-drin.

Gwelsom fod y Gwasanaeth Ymateb a Rheoli Amenedigol ar waith a bod pob aelod o'r staff yn cael eu hyfforddi'n briodol a'u bod yn ymwybodol o'r broses atgyfeirio i'w dilyn. Nid oedd y bwrdd iechyd yn darparu hyfforddiant o ran

anffurfio organau cenhedlu benywod, ond dywedodd y staff ar y sifft eu bod yn gwbl ymwybodol o'r broses ar gyfer uwchgyfeirio pryderon o'r fath.

Roedd y staff yn gallu cael gafael ar arweinydd diogelu a allai roi cyngor a chymorth ynghylch materion diogelu. Roedd y broses ddiogelu yn cael ei disgrifio'n fanwl, gan ddangos dull amlddisgyblaethol rhwng gwasanaethau o ymdrin â materion diogelu.

Fel y disgrifiwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, roedd mesurau diogelwch ar waith i warchod cleifion ar y ward/yn yr uned. Roedd systemau intercom yn cael eu defnyddio wrth fynedfeydd ardaloedd er mwyn cynnal diogelwch pan oedd pobl yn dod i mewn i'r wardiau. Gwelsom hefyd fod babanod yn gorwedd ar fatresi pwysedd er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel ar y ward.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried rhoi hyfforddiant ar anffurfio organau cenhedlu benywod i bob aelod o staff y ward a bod y staff yn ymwybodol o'r llwybr Cymru Gyfan perthnasol.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Ar y cyfan, dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod cyfarpar priodol megis dyfeisiau sonicaid[18], dyfeisiau monitro cardiotocograffeg[19] a pheirannau monitro pwysedd gwaed ar gael iddynt, er mwyn eu helpu i ddarparu gofal.

Gwnaethom ystyried y trefniadau ar gyfer gwirio offer dadebru ar Ward 18, Ward 19 a'r ward esgor. Rhoddwyd sicrwydd i ni fod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod yr offer yn addas i'w defnyddio.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

[18] Dyfais a ddelir yn y llaw ar gyfer monitro ffetysau

[19] Peiriant a ddefnyddir i gofnodi curiad calon y ffetws

Ar sail trafodaethau â nifer o staff yr uned a thystiolaeth o'r holiaduron staff, gwnaethom dynnu sylw at bryder yn ymwneud â gallu'r staff i ddarparu gofal mewn ffordd ddiogel ac effeithiol. Gwelsom fod y staff yn aml yn gweithio oriau hir, ar ben sifftiau arferol, er mwyn helpu i gyflenwi yn achos prinder staff. Cododd y staff bryderon hefyd nad oedd y cymysgedd priodol o sgiliau a phrofiad ar gael yn ystod pob sifft oherwydd y prinder staff. Fodd bynnag, rhoddwyd sicrwydd i ni fod systemau priodol ar waith i reoli lefelau staffio ochr yn ochr ag aciwtedd cleifion er mwyn sicrhau gofal diogel bob amser, yn unol â data Birthrate Plus.[20]

Er i ni arsylwi ar staff yn blaenoriaethu angen clinigol a gofal cleifion yn effeithiol, roedd y pwysau a oedd yn gysylltiedig â lefelau staffio yn golygu bod hyn yn effeithio ar eu gallu i gyflawni dyletswyddau eraill. Roedd hyn yn cynnwys cwblhau hyfforddiant a nodwyd, adolygu digwyddiadau a phryderon yn amserol ac yn briodol, a chynnal archwiliadau ward lleol.

Wrth i ni adolygu'r bwrdd cipolwg ar statws cleifion a sampl o gofnodion meddygol cleifion, nodwyd meysydd i'w gwella. Roedd y rhain yn ymwneud â rheoli cleifion yr oedd angen ysgogi eu cyfnod esgor, sydd fel arfer yn digwydd pan fo pryderon am iechyd y fam neu'r baban.

Nodwyd gennym hefyd achosion o oedi wrth drosglwyddo pobl mewn ambiwlans o leoliadau cymunedol a safleoedd acíwt eraill i Ysbyty Singleton. Tynnwyd sylw'r uwch-dîm at hyn ar adeg yr arolygiad, a rhoddwyd sicrwydd i ni fod y ddau fater a oedd yn deillio o'r digwyddiadau cysylltiedig a godwyd yn cael eu hadolygu a'u gwerthuso.

Dywedodd hanner yr 16 o aelodau o'r staff wrthym eu bod bob amser neu fel arfer yn fodlon ar ansawdd y gofal y maent yn ei roi i'r cleifion, a dywedodd tua chwarter ohonynt eu bod yn fodlon weithiau. Dywedodd llai na chwarter y staff nad oeddent byth yn fodlon ac nid ymatebodd un aelod o'r staff i hyn.

Nodwyd gennym hefyd fod presenoldeb meddyg ymgynghorol obstetreg ar y ward esgor, yn dilyn cynnydd diweddar yn nifer y meddygon ymgynghorol, yn gweithio tuag at gael meddyg ymgynghorol ar y safle 24 awr y dydd i gefnogi'r ward esgor. Mae hyn yn fenter gadarnhaol ar gyfer y ward esgor.

[20] https://www.birthrateplus.co.uk/

Gwelsom fod cleifion ar bob ward i'w gweld yn gyfforddus a'u bod yn cael gofal da. Gwelsom dystiolaeth dda hefyd o gynlluniau asesu a thriniaeth feddygol ar bob ward. Roedd poen yn cael ei rheoli'n dda ar y cyfan yn yr uned, a gwelwyd tystiolaeth o hyn yn y cofnodion meddygol a adolygwyd gennym, a chadarnhawyd hyn mewn trafodaethau â chleifion ar adeg yr arolygiad.

Gwelsom fod y gwasanaeth mamolaeth wedi cael ei ad-drefnu'n sylweddol ym mis Ebrill 2019. O ganlyniad, mae strwythur y rheolaeth bydwreigiaeth wedi cael ei adolygu ac mae'r strwythur wedi'i ddiweddaru yn cynnwys cynnig i gael Arweinydd Llywodraethu Bydwreigiaeth. Yn dilyn asesiad Birthrate Plus yn 2018, cafodd penderfyniad i recriwtio 5.8 bydwraig cyfwerth ag amser llawn ac 1.9 cynorthwyydd gofal mamolaeth cyfwerth ag amser llawn ei gymeradwyo. Cafodd y rhain eu recriwtio er mwyn llenwi'r bwlch.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Caiff y trefniadau staffio ar gyfer darparu cymorth meddygol adeg prinder staff eu hadolygu i sicrhau bod y lefelau staffio'n ddiogel ac yn effeithiol er mwyn diwallu anghenion y gwasanaeth
- Rhoddir gwybod i AGIC ynghylch y gwaith a wneir gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru er mwyn lleihau oedi wrth gludo cleifion i'r ysbyty o leoliadau cymunedol.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Gwelsom achlysuron pan nad oedd gwybodaeth a allai adnabod cleifion yn cael ei chadw'n ddiogel er mwyn helpu i atal mynediad anawdurdodedig. Roedd gwybodaeth o'r fath yn cael ei storio mewn cwpwrdd heb ei gloi, a gwelsom hefyd gofrestr o enedigaethau, yn cynnwys cofnodion llawer o flynyddoedd, ar fwrdd yn yr uned a arweinir gan fydwragedd, lle gallai pawb a oedd yn dod i mewn i'r ward ei gweld yn glir. Roedd y gofrestr yn cynnwys manylion cyfrinachol, megis dyddiadau geni, enwau a chyfeiriadau.

Cafodd y materion hyn eu huwchygyfeirio i'r uwch-reolwyr ar unwaith a chafodd y wybodaeth ei storio'n ddiogel. Rhoddwyd gwybod i'r staff hefyd am bwysigrwydd cyfrinachedd.

Roedd y fewnrwyd yn llawn gwybodaeth i'r staff, gan gynnig amrywiaeth eang o bolisïau a gweithdrefnau clinigol yn ymwneud â bydwreigiaeth a materion meddygol yr oedd yn hawdd cael gafael arnynt. Fodd bynnag, gwelwyd nad oedd y wybodaeth hon i gyd yn gyfredol a bod angen ei hadolygu.

Gwelsom fod yr uned yn defnyddio ac yn parhau i ddatblygu dangosfwrdd mamolaeth. Adnodd electronig yw hwn i fonitro perfformiad clinigol eu gwasanaethau a'r ffordd y cânt eu llywodraethu. Gall hyn hefyd helpu i nodi materion sy'n ymwneud â diogelwch cleifion fel y gellir cymryd camau gweithredu amserol a phriodol i sicrhau gofal o ansawdd uchel. Fodd bynnag, nid oedd modd rhoi sicrwydd i ni fod camau gweithredu dilynol wedi cael eu cymryd mewn cysylltiad â data a oedd yn nodi bod y perfformiad islaw'r lefel ofynnol. Nodwyd gennym hefyd y gallai ansawdd a dilysrwydd y data a oedd yn cael eu mewnbynnu effeithio ar gywirdeb y wybodaeth hon.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Cynhelir cyfrinachedd a chaiff pob dogfen sy'n berthnasol i gleifion ei storio'n ddiogel bob amser
- Caiff pob polisi a gweithdrefn glinigol sy'n ymwneud â bydwreigiaeth a materion meddygol sydd ar y fewnrwyd eu hadolygu a'u diweddaru
- Caiff y system perfformiad clinigol a llywodraethu (dangosfwrdd mamolaeth) ei rheoli'n effeithiol fel adnodd i gefnogi'r broses o ddarparu gofal diogel. Yn benodol, mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried a monitro ansawdd/dilysrwydd y data a chymryd camau priodol mewn ymateb i ddangosyddion perfformiad.

Cadw cofnodion

Ar y cyfan, gwelsom fod cofnodion cleifion mewn cyflwr da, gyda dogfennaeth glir, a oedd yn cael ei chwblhau'n amserol.

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion bydwreigiaeth pum claf ôl-enedigol o fewn yr uned. Gwelsom fod effeithiolrwydd y trefniadau rheoli poen wedi cael ei sgorio a bod camau gweithredu wedi cael eu cymryd a'u huwchgyfeirio yn ôl yr angen. Roedd asesiadau risg priodol, gan gynnwys y rheini ar gyfer thrombosis gwythiennau dwfn, wedi cael eu cwblhau. Fodd bynnag, yng nghofnodion rhai cleifion, nid oedd dyddiadau bob amser wedi cael eu cynnwys ar bob tudalen, ac roedd rhai tudalennau lle nad oedd labeli adnabod cleifion bob amser wedi cael

eu defnyddio. Gallai hyn beri dryswch a'r risg y byddai gofal amhriodol yn cael ei roi pe bai nodiadau cleifion yn cael eu colli ar ddamwain.

Wrth adolygu'r cofnodion meddygol, gwelsom y gellid gwneud gwelliannau yn y broses o gadw cofnodion, yn unol â chanlyniadau archwiliadau cadw cofnodion a welwyd ac a oedd wedi cael eu cynnal gan y bydwragedd. Gwelsom fod y staff yn cwblhau hyfforddiant ar lywodraethu gwybodaeth yn llwyddiannus. Dywedwyd wrthym hefyd fod cynlluniau ar waith i greu un cofnod mamolaeth cyflawn yn y dyfodol, yn cynnwys pob dogfen angenrheidiol mewn un lle, a fyddai'n arwain at gysondeb a llai o ddyblygu.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Mae cofnodion cleifion yn cynnwys labeli adnabod cleifion priodol a dyddiadau ar bob tudalen
- Caiff y broses o gadw cofnodion ei hadolygu a bydd canfyddiadau archwilio perthnasol yn dylanwadu ar ddysgu a newidiadau.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd y staff yn ymdrechu i roi gofal diogel ac effeithiol o ansawdd da i gleifion yn yr uned.

Gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth a rheolaeth dda ymhlith timau bydwreigiaeth a meddygol o fewn yr uned. Roedd aelodau o staff yr uned a gwblhaodd holiaduron a'r rhai y gwnaethom siarad â nhw'n gadarnhaol ar y cyfan ynghylch y cymorth roeddent yn ei gael gan yr uwch-staff. Fodd bynnag, cawsom adborth cymysg ar weledd yr uwch-staff meddygol a bydwreigiaeth.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Gwelsom fod y gwasanaeth yn cynnal nifer o gyfarfodydd rheolaidd i gefnogi prosesau a gweithdrefnau sefydledig. Dywedodd aelodau o'r uwch-staff wrthym fod y rhain wedi gwella gwasanaethau a chryfhau trefniadau llywodraethu. Roedd cyfarfodydd o'r fath yn cynnwys grŵp ansawdd a diogelwch mamolaeth misol, cyfarfodydd adolygu archwiliadau bob deufis, a chyfarfodydd adolygu digwyddiadau o safbwynt clinigol obstetrig. Cynhaliwyd hefyd gyfarfodydd misol i drafod y broses sgrinio uwchsain, y ward esgor, a fforymau ôl-enedigol a newyddenigol, a chyfarfodydd amlddisgyblaethol wythnosol.

Gwnaethant ddweud wrthym fod cynllun archwilio sefydledig ar gyfer y staff meddygol a'r bydwragedd ar waith, a bod canlyniadau'r archwiliadau hyn yn cael eu rhannu yn ystod y cyfarfod adolygu archwiliadau bob deufis. Roedd y canlyniadau hyn wedyn yn cael eu rhannu drwy strwythur llywodraethu'r bwrdd iechyd â'r grŵp ansawdd a diogelwch. Yn ogystal, cadarnhaodd yr uwch-dîm rheoli fod camau gweithredu ac argymhellion o archwiliadau mamolaeth cenedlaethol, megis *Mothers and Babies: Reducing Risk through Audits and*

Confidential Enquiries (MBBRACE)[21] ac *Each Baby Counts*,[22] yn cael eu rhoi ar waith yn yr uned. Y nod yw gwella gofal a phrofiad cleifion a'r broses o adrodd ar gamau i leihau risg a diogelwch cleifion yn y dyfodol. Mae cyrff archwilio cenedlaethol perthnasol megis MBBRACE yn dilysu'r gwaith hwn yn allanol bob blwyddyn, a gwneir gwaith parhaus i sicrhau bod yr uned yn cydymffurfio â'r argymhellion a wneir.

Gwelsom hefyd gofnodion o gyfarfod yr obstetryddion a'r gynaecolegwyr ymgynghorol, a chyfarfodydd arweinwyr tîm a'r staff. Roedd yn ymddangos bod y rhain wedi'u strwythuro'n dda, ac yn trafod llawer o feysydd llywodraethu. Dywedwyd wrthym fod grŵp llywio mamolaeth wedi cael ei sefydlu, a fyddai'n ystyried y cynllun i ailstrwythuro'r gwasanaethau mamolaeth yn y bwrdd iechyd. Roedd y broses hon yn mynd rhagddi a phrif flaenoriaeth y grŵp oedd gwella gwasanaethau ym mhob rhan o'r uned.

Bu modd i ni fynd i ddau gyfarfod trosglwyddo meddygol yn ystod yr arolygiad. Fodd bynnag, gwelsom fod y cyfarfod i'w weld yn ddi-drefn, heb agenda na fformat penodol i'w dilyn a heb lawer o bobl yn bresennol. Nid oedd yn unol â chanllawiau trosglwyddo'r bwrdd iechyd a oedd ar waith ychwaith. Yn ogystal, roedd y ffaith bod y ffôn yn canu i ganiatáu cleifion/ymwelwyr i mewn i'r uned yn amharu ar y broses drosglwyddo, a oedd yn ddigwyddiad rheolaidd yn ôl y staff.

Gwelsom gofrestr risg mamolaeth a oedd yn cael ei rheoli a'i nodi drwy fforwm ansawdd a diogelwch y bwrdd iechyd. Dywedodd yr uwch-dîm rheoli wrthym fod y tîm gweithredol yn cael eu hysbysu'n llawn o'r risgiau ac yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd amdanynt, a bod unrhyw bryderon sylweddol yn cael eu huwchgyfeirio iddynt yn briodol. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y risgiau yn y gofrestr yn cael eu hadolygu na'u diweddaru'n rheolaidd. Rhoddodd y staff bydwreigiaeth wybod i ni hefyd nad oeddent yn ymwybodol o'r broses ar gyfer uwchgyfeirio risgiau er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys yn briodol yn y

---

[21] Mae MBRRACE - Mothers and Babies: Reducing Risk through Audits and Confidential Enquiries yn gweithio ledled y DU gyda'r nod o gyflwyno gwybodaeth gadarn i gefnogi'r broses o ddarparu gwasanaethau mamolaeth, newyddenedigol a babanod diogel, teg o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y claf.

[22] Each Baby Counts - sef rhaglen gwella ansawdd genedlaethol Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr i leihau nifer y babanod sy'n marw neu sy'n dioddef anabledd difrifol o ganlyniad i ddigwyddiadau yn ystod y cyfnod esgor.

gofrestr risg. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn cyd-fynd â dealltwriaeth yr uwch-reolwyr o'r sefyllfa, felly mae angen hyfforddiant ychwanegol er mwyn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r broses ar gyfer uwchgyfeirio risgiau.

Mae gan y bwrdd iechyd broses lywodraethu strwythuredig a system electronig ar waith ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau. Mae hyn yn helpu i sicrhau yr ymdrinnir â phob digwyddiad a phryder yn briodol, ac y ceir proses graffu briodol i sicrhau bod gwersi yn cael eu dysgu a'u rhannu â'r staff, er mwyn lleihau'r risg y bydd digwyddiadau tebyg yn codi eto.

Ar hyn o bryd mae gan yr uned famolaeth fydwraig risgiau clinigol. Nid yw'n gweithio'n glinigol ond gellir galw arni ar adegau aciwtedd uchel (ynghyd â bydwragedd eraill â rolau arbenigol). Mae'r fydwraig risgiau clinigol yn adolygu pob digwyddiad a gyflwynir i Datix ac yn dyrannu cyfrifoldeb i'r bobl ac yn gweithio ar yr adolygiadau. Mae'r fydwraig risgiau clinigol hefyd yn gweithio gyda'r fetron i gael sicrwydd am y broses o gydgysylltu a monitro adroddiadau ar ddigwyddiadau ar Datix. Cadarnhawyd mai'r fydwraig risgiau clinigol fydd yn arwain yr ymchwiliadau i ddigwyddiadau anffafriol difrifol fel y dyrennir hefyd. Rhoddwyd gwybod i ni mai'r cynllun hirdymor yw penodi rheolwr gwasanaeth a fyddai'n cefnogi'r fydwraig risgiau clinigol yn ogystal ag arwain ar yr agwedd llywodraethu clinigol megis Datix a rheoli risgiau yn yr uned. Dywedwyd wrthym hefyd fod yr uwch-dîm rheoli yn cyfarfod bob wythnos i drafod unrhyw ddigwyddiadau nas ymdriniwyd â nhw, digwyddiadau sy'n destun pryder neu gwynion er mwyn sicrhau bod y rhain yn cael eu rheoli'n effeithiol ac yn amserol. Dywedodd y staff clinigol wrthym fod proses newydd ar waith ar gyfer adolygu unrhyw ddigwyddiadau ac sy'n cael eu nodi a chwynion sy'n dod i law, ac ymchwilio iddynt. Yn rhan o'r broses hon, byddai'r fydwraig a oedd yn gyfrifol am risgiau yn dyrannu'r cyfrifoldeb am arwain ar y rhain i'r arweinwyr tîm perthnasol, er mwyn iddynt ymchwilio ymhellach iddynt. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym eu bod yn ei chael hi'n anodd cwblhau'r ymchwiliadau o fewn yr amserlenni penodol. Dywedwyd wrthym nad oedd gan rai aelodau o'r staff unrhyw amser anghlinigol, felly nid oeddent yn gallu cwblhau'r ymchwiliadau o fewn sifft glinigol arferol. Mae gwaith ymchwilio yn rhan bwysig o'r broses o reoli digwyddiadau, er mwyn cadarnhau'r rhesymau dros y digwyddiadau neu'r cwynion a sut y gwnaethant ddigwydd. Y nod yw dysgu a chymryd camau atal er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Dywedodd yr uwch-dîm rheoli wrthym fod yr hyn a ddysgwyd o ddigwyddiadau ac archwiliadau, ynghyd ag unrhyw arfer da, yn cael eu rhannu â'r staff. Gwnaed hyn drwy sesiynau briffio diogelwch, cylchlythyrau, cofnodion cyfarfodydd adolygu digwyddiadau, a chofnodion cyfarfodydd llywodraethu. Gwelsom dystiolaeth o'r dogfennau yn ystod yr arolygiad, ond dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw nad oeddent yn eu gweld yn aml. Yn ogystal, nid oedd

yn glir i ni fod yr hyn a oedd yn cael ei ddysgu yn cael ei rannu â'r staff er mwyn hyrwyddo a gwella'r broses o ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Rhoddir dull mwy strwythuredig ar waith ar gyfer cyfarfodydd trosglwyddo meddygol
- Caiff y gofrestr risg ei hadolygu a'i diweddaru'n rheolaidd, ac mae pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r broses ar gyfer uwchgyfeirio risgiau
- Mae gan y staff sy'n gyfrifol am ymchwilio i ddigwyddiadau ddigon o amser i gwblhau'r broses
- Caiff hyfforddiant ychwanegol ar adrodd ar ddigwyddiadau/Datix ei gwblhau er mwyn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r broses ar gyfer uwchgyfeirio risgiau
- Rhennir cylchlythyrau a chofnodion cyfarfodydd â'r staff yn briodol
- Rhennir yr hyn a ddysgir o ddigwyddiadau, archwiliadau ac arfer da yn effeithiol â phob aelod o'r staff.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Fel y crybwyllwyd yn flaenorol, gwelsom fod adolygiad Birthrate Plus wedi cael ei gwblhau yn 2018 a nododd brinder o ran rolau bydwragedd a chynorthwywyr gofal mamolaeth. Cytunwyd ar y cyllid i ymdrin â'r prinder hwn yn 2018 a llwyddwyd i lenwi'r swyddi bydwragedd. Mae'r cynorthwywyr gofal mamolaeth yn cael eu recriwtio ar hyn o bryd. Argymhellir y dylid cynnal adolygiad Birthrate Plus o leiaf bob tair blynedd. Gwnaethom adolygu rotas y staff bydwreigiaeth a'r staff meddygol. Er bod rhai problemau staffio yn ymwneud ag aciwtedd wedi'u cofnodi, dywedodd yr uwch-dîm rheoli wrthym eu bod yn rheoli'r diffygion drwy geisio llenwi sifftiau gwag cyn y dyddiad dan sylw, a rhoddwyd sicrwydd i ni o hyn.

Dywedodd y staff meddygol wrthym hefyd fod prinder o ran meddygon gradd ganol, ond bod y rhain yn cael eu rheoli'n ddigonol drwy ddefnyddio meddygon

locwm. Rhoddwyd gwybod i ni hefyd fod sefyllfa'r system feddygol ar alw yn eithaf heriol am nad oes ond y nifer gofynnol o staff ar y rota ar hyn o bryd. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod disgwyl i'r sefyllfa hon wella ym mis Awst 2019 yn sgil adolygiad llawn o'r staff a ddyrennir a'r cyfrifoldebau a fydd ganddynt pan fyddant ar alw. Rhoddwyd gwybod i ni y gwnaed ymdrechion i sicrhau bod cynlluniau swyddi'r obstetryddion a'r gynaecolegwyr ymgynghorol preswyl yn adlewyrchu eu diddordebau gynaecolegol.

Roedd trafodaethau â'r uwch-reolwyr yn dangos bod cynlluniau ar waith i fynd i'r afael â phroblemau staffio. Roedd y rhain yn cynnwys cymryd y camau canlynol:

- Cydgysylltwyr y ward esgor i fonitro aciwtedd cleifion bob pedair awr
- Mae'r broses o recriwtio bydwragedd a meddygon gradd ganol wedi dechrau gyda'r nod o lenwi'r holl swyddi erbyn mis Medi 2019
- Cynhelir adolygiad o'r broses ar gyfer llywodraethu'r trefniadau brysbennu a'r uned a arweinir gan fydwragedd er mwyn sicrhau bod y lefelau staffio yn ddigonol a bod gan y staff y cymysgedd sgiliau cywir
- Talu goramser yn hytrach na chyfraddau banc is i'r staff er mwyn eu hannog i weithio sifftiau ychwanegol
- Defnyddio bydwragedd o'r meysydd nad ydynt yn acíwt, megis clinigau cynenedigol a'r gymuned, er mwyn cefnogi'r ardaloedd acíwt
- Uwch-reolwyr clinigol yn cynnig cymorth pan fo modd i weithio ar sifftiau pan fydd prinder staff
- Gwelliannau i'r rota meddygol ar alw o fis Awst 2019 yn sgil adolygiad cyflawn o'r staff a ddyrennir a'u cyfrifoldebau pan fyddant ar alw
- Dilyn cynllun uwchgyfeirio pan fydd uned yn wynebu lefelau staffio isel ac aciwtedd uchel.

Er ein bod yn teimlo bod cynlluniau gweithredu'r bwrdd iechyd i fynd i'r afael â lefelau staffio yn cael eu rheoli'n briodol ar sail ein trafodaethau ag uwch-reolwyr, mynegodd y staff nifer o bryderon. Yn ystod ein harolygiad, cawsom gyfle i siarad â nifer o aelodau o'r staff o bob rhan o'r uned, a oedd yn cael eu cyflogi mewn amrywiaeth o rolau. Roedd yn amlwg bod cydweithwyr yn cael cymorth personol o safon uchel ac roedd yn ymddangos bod cydberthnasau da rhwng staff y ward a'r uwch-dîm rheoli. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos bod gan rai aelodau o'r staff bryderon am forâl isel oherwydd lefelau staffio a phwysau gwaith a oedd yn deillio o aciwtedd cleifion.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo bod lefelau staffio wedi cael eu lleihau ers peth amser a bod hyn wedi cael effaith ar forâl a llesiant y staff. Nodwyd nifer o sylwadau negyddol o holiaduron y staff, ac o siarad â'r staff. Cyfeiriodd y staff at anawsterau wrth gymryd seibiannau, blinder oherwydd eu ffordd o weithio, a llwythi gwaith cynyddol. Yn ogystal, dywedodd y staff eu bod yn gweithio sifftiau "nad oeddent yn llesol i'w bywydau", yn aml mewn amgylcheddau anghyfarwydd heb fawr ddim cymorth. Gwnaethant ddweud bod angen adolygu'r gyfarwyddeb oriau gwaith ar gyfer bydwragedd cymunedol a oedd yn gweithio yn yr uned gan fod llawer ohonynt yn cael eu galw i mewn i gyflenwi ar gyfer sifftiau yn yr uned ar ôl iddynt eisoes wneud diwrnod llawn o waith yn y lleoliad cymunedol. Dywedodd y staff hefyd fod yn rhaid iddynt ymddiheuro i gleifion am oedi wrth ysgogi cyfnod esgor, o ganlyniad i brinder staff ar y ward esgor. Ar ben hynny, dywedodd tri aelod o'r staff nad oedd digon ohonynt ar unrhyw adeg i wneud eu gwaith yn iawn.

Dim ond lleiafrif o'r staff a gwblhaodd holiadur a ddywedodd eu bod wedi cael eu cynnwys yn y broses o benderfynu ar newidiadau a allai effeithio ar eu gwaith. Er eu bod yn gwybod pwy oedd eu huwch-reolwyr, dim ond hanner ohonynt oedd o'r farn bod y broses gyfathrebu'n effeithiol.

Dim ond hanner y staff a gwblhaodd holiadur a gredai fod y staff a oedd yn rhoi gwybod am gamgymeriadau yn cael eu trin yn deg, er bod y rhan fwyaf ohonynt yn cytuno eu bod yn cael eu hannog i roi gwybod am ddigwyddiadau a chamgymeriadau a fu bron â digwydd. Dywedodd hanner y staff hefyd fod y sefydliad yn cymryd camau gweithredu i sicrhau na fyddai'r un peth yn digwydd eto. Fodd bynnag, dywedodd rhai aelodau o'r staff wrthym, er eu bod yn cael adborth pan oeddent wedi chwarae rhan uniongyrchol mewn digwyddiad, eu bod yn teimlo bod y broses hon yn ffordd o gosbi yn hytrach na gwella. Gwelsom fod menter Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni yn cael eu hybu'n rhagweithiol, er mwyn helpu i roi gwybod i'r staff am y newidiadau roeddent yn eu gwneud mewn ymateb i awgrymiadau'r staff. Fodd bynnag, yn seiliedig ar yr adborth gan y staff, gwelsom fod angen gwella'r broses gyfathrebu ymhellach, yn enwedig o ran y newidiadau sylweddol yn yr uned.

Er na wnaethom siarad â'r bydwragedd cymunedol ar yr achlysur hwn, cawsom adborth ganddynt drwy ein holiaduron staff. Dywedodd y bydwragedd cymunedol nad oeddent yn teimlo y gallent gyflawni eu rolau'n effeithiol gan eu bod yn cael eu galw i'r ysbyty'n rheolaidd i weithio, oherwydd prinder staff. Dywedodd y bydwragedd hefyd eu bod yn teimlo nad oedd digon o staff yn y gymuned pan oeddent yn cael eu galw i mewn i'r uned, a'u bod yn teimlo bod y lefelau staffio yn cael effaith andwyol ar ddiogelwch a gofal cleifion.

Trafodwyd lefelau staffio yn yr uned a'r gymuned â'r uwch-dîm rheoli, ond ni wnaeth hyn fynd i'r afael â'n pryderon ynghylch yr hyn a ddywedwyd yn yr holiaduron am yr effaith andwyol ar ofal yn y gymuned.

Rhoddwyd sicrwydd i ni, pan oedd yn amlwg nad oedd digon o staff, fod staff cymunedol yn cael eu galw i mewn i'r uned. Dywedodd yr uwch-dîm rheoli wrthym hefyd fod y broses hon yn cael ei hasesu'n rheolaidd er mwyn sicrhau parhad gofal a llesiant y staff. Cadarnhaodd y tîm rheoli hefyd fod disgwyl i nifer sylweddol o staff gael eu penodi ym mis Medi 2019, a fydd yn gwella'r diffyg o ran nifer y staff ar sifftiau.

O ran gweithio amlddisgyblaethol, cafwyd sylwadau cadarnhaol yn holiaduron y staff a ddaeth i law a'r trafodaethau a gynhaliwyd am gymorth a gwaith ymgysylltu'r tîm anaestheteg â'r tîm bydwragedd a materion meddygol. Dywedwyd wrthym hefyd fod cydberthnasau gwaith da rhwng y bydwragedd a'r staff meddygol. Cafwyd sylwadau ffafriol gan yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw am y cyfnod chwe mis o diwtoriaeth yn y gymuned, a'r cynllun man gwaith a ffefrir a oedd, yn ôl y staff, yn gwella sgiliau ac yn hyrwyddo perchenogaeth.

Dywedodd yr uwch-reolwyr wrthym yr arferai cydymffurfiaeth o ran adolygiadau arfarnu a datblygu personol fod yn wael, ond bod gwaith wedi cael ei wneud yn ddiweddar er mwyn gwella cydymffurfiaeth. Dywedwyd wrthym fod proses arfarnu staff ar waith bellach a oedd yn helpu i benderfynu am anghenion hyfforddi parhaus, ond gwelsom nad oedd pob un o'r arfarniadau wedi cael eu cwblhau, ond y byddai'n rhaid eu cwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol. Rhoddwyd sicrwydd i ni fod cymorth yn cael ei roi i'r bydwragedd a'r staff meddygol o ran y broses goruchwylio ac arfarnu clinigol.

Gwelsom fod gan y bwrdd iechyd nifer digonol o oruchwylwyr i oruchwylio'r bydwragedd yn glinigol, a bod nifer digonol o oruchwylio meddygol hefyd. Fodd bynnag, dywedodd rhai aelodau o'r tîm bydwreigiaeth a'r tîm meddygol wrthym fod angen mwy o amser i sicrhau bod gofynion tiwtoriaeth yn cael eu bodloni. Esboniodd un aelod o'r staff y gall lefelau staffio effeithio ar diwtoriaethau yn aml, a'i bod yn bosibl bod staff newydd gymhwyso yn cael eu gadael heb gefnogaeth yn ystod cyfnodau o aciwtedd uchel, a all gael effaith ar ofal cleifion a llesiant y staff.

Gwelsom ddull gweithredu strwythuredig ar gyfer hyfforddiant a goruchwyliaeth glinigol gydag arweinwyr pob un o'r meysydd hyn yn rheoli cydymffurfiaeth a defnydd. Edrychom ar y dystiolaeth o hyfforddiant y staff a oedd yn cael ei dal o fewn cronfa ddata a gwelsom fod y staff yn cael eu hannog i gwblhau hyfforddiant gorfodol a statudol. Cydnabu'r uwch-reolwyr fod angen gwneud rhagor o waith

er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth o ran hyfforddiant, a bod angen i'r system/cronfa ddata ar hyfforddiant gael ei diweddaru'n gyson.

Roedd cofnodion hyfforddiant y staff yn cael eu cadw gan y fydwraig datblygu ymarfer a oedd yn rheoli hyfforddiant yn lleoliadau mamolaeth acíwt a chymunedol yng Nghastell-nedd Port Talbot ac yn Ysbyty Singleton. Roedd y gronfa dda hyfforddiant a welwyd yn rhoi sicrwydd i ni fod y staff yn cael eu hyfforddi i lefelau ac yn ôl gofynion derbyniol o ran hyfforddiant gorfodol, ond cydnabuwyd bod angen gwneud mwy o waith yn y maes hwn. Gwnaethom gydnabod y gwaith a oedd yn cael ei wneud gan y fydwraig datblygu ymarfer i gefnogi bydwragedd newydd gymhwyso a staff newydd, a datblygu cynlluniau sefydlu. Roedd hyn yn cefnogi bydwragedd newydd gymhwyso yn ystod eu blwyddyn ymarfer gyntaf, drwy ddatblygu ac ategu'r cymwyseddau a gafodd eu meithrin yn ystod eu hyfforddiant. Nodwyd bod yn werth tynnu sylw at y maes hwn o arfer.

Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant PROMPT (Hyfforddiant Amlbroffesiynol Obstetrig Ymarferol)[23] yn cael ei gwblhau'n rheolaidd a bod tystiolaeth o hyn. Nodwyd gennym hefyd fod cydymffurfiaeth dda, dros 90%, â hyfforddiant gorfodol a'r diwrnod diweddaru proffesiynol. Cadarnhawyd hyn hefyd gan holiaduron y staff; roedd y rhan fwyaf ohonynt wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol yn ystod y 12 mis blaenorol, gan gynnwys Dadebru Newydd-anedig[24], y Protocol Asesu Twf a hyfforddiant cardiotocograffeg.

Dywedodd yr uwch-reolwyr wrthym fod cynlluniau hyfforddi cadarn ar waith a gwelwyd bod y rhain yn cael eu rheoli'n dda iawn gan y fydwraig datblygu ymarfer. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd yr hyfforddiant o ran yr uned a arweinir gan fydwragedd a'r broses gwagio pyllau geni yn briodol wedi cael ei roi i bob aelod o'r tîm bydwragedd. Roedd hyn yn effeithio ar y gallu i gefnogi sifftiau'n briodol o ganlyniad i'r lleihad yn y cymysgedd sgiliau. Fodd bynnag, dywedodd

[23]Mae PROMPT (Hyfforddiant Amlbroffesiynol Obstetrig Ymarferol) yn becyn hyfforddi amlbroffesiynol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer argyfyngau obstetrig. Mae'n gysylltiedig â gwelliannau uniongyrchol o ran canlyniadau amenedigol a phrofwyd y ffaith ei fod yn gwella gwybodaeth, sgiliau clinigol a gweithio mewn tîm

[24] Dangoswyd bod y Protocol Asesu Twf (GAP) yn gwella'r broses o ddatgelu achosion o gyfyngu ar dwf ffetysau (FGR). Mae FGR yn un o achosion sylweddol marw-enedigaeth, marwolaethau babanod newydd-anedig ac afiachusrwydd amenedigol.

yr uwch-dîm rheoli wrthym fod hyn yn cael ei reoli'n briodol a dim ond staff cwbl gymwys fyddai'n cefnogi'r pyllau geni. Os nad oedd staff ar gael, ni fyddai'r pyllau geni'n cael eu defnyddio, a all effeithio ar y capasiti cyfyngedig yn y ward esgor. Nid oedd sylwadau'r staff a ddaeth i law'n cytuno nac yn anghytuno â hyn. Fodd bynnag, daethom i wybod nad oedd rhaglen hyfforddi ar wagio pyllau geni wedi cael ei hymestyn eto i staff yn yr ysbyty.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Ymchwilio i'r rhesymau dros forâl a llesiant isel ymhlith y timau staff
- Adolygu'r lefelau staffio ar gyfer cymorth i fydwragedd a chymorth meddygol er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn effeithiol ac yn diwallu anghenion y gwasanaeth
- Ystyried effaith lefelau staffio yn y gymuned wrth alw ar fydwragedd i weithio yn yr ysbyty
- Ystyried y pryderon a godwyd gan y staff o ran oedi'r broses o ysgogi cyfnod esgor o ganlyniad i brinder staff
- Sicrhau bod lefelau cydymffurfiaeth â gofynion hyfforddiant yn cael eu gwella a'u cynnal
- Sicrhau bod sianeli cyfathrebu'n cael eu diffinio'n glir, er mwyn i'r staff gael yr holl wybodaeth am faterion neu newidiadau sy'n effeithio arnyn nhw a'u gwaith
- Sicrhau bod nifer digonol o staff ar gael sydd wedi cael hyfforddiant ar wagio pyllau geni yn ddiogel, er mwyn cefnogi'r broses o ddarparu gofal yn yr uned a arweinir gan fydwragedd.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu ysbytai

Gallwn ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gweithredu wrth arolygu ysbytai'r GIG, gan gynnwys:

- Arolygiad dwys o un ward: cynhaliwyd arolygiad trylwyr a manwl o un ward
- Arolygiad o sawl ward: ymwelwn â nifer o wardiau ac adrannau yn yr un ysbyty er mwyn nodi materion neu themâu a all fod yn gymwys i'r ysbyty cyfan
- Arolygiad o sawl ysbyty: ymwelwn â nifer o ysbytai yn yr un bwrdd iechyd er mwyn asesu'r broses o lywodraethu a chyflenwi gwasanaethau cyfan.

Fel arfer, ni roddir rhybudd pan arolygir ysbytai. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae ysbytai yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015. Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn ysbytai.

Ceir manylion pellach am sut mae AGIC yn arolygu'r GIG ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Gweler yr argymhellion yn Atodiad C			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Arolygiad o Ysbyty: Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth:

Ardal:

Dyddiad arolygu:

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oedd angen unrhyw welliannau uniongyrchol				

Cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd:

Enw (priflythrennau):

Rôl:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Ysbyty: Bwrdd Iechyd Prifysgol Singleton

Ward/adran: **Gwasanaethau Mamolaeth – Ward 18, Ward 19, Ward Esgor a'r Uned a Arweinir gan Fydwragedd**

Dyddiad arolygu: 24 - 26 Mehefin 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr arwyddion yn yr ysbyty yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn hawdd i'w darllen i'r holl gleifion ac ymwelwyr â'r ysbyty.	4.2 Gwybodaeth i Gleifion	Rheolwr yr Uned Cyflenwi Gwasanaethau i ddirprwyo'r adolygiad o'r arwyddion gyda'r tîm rheoli ystadau i sicrhau bod arwyddion clir i adrannau mamolaeth ym mhob rhan o'r ysbyty.	Rheolwr yr Uned Cyflenwi Gwasanaethau	Rhagfyr 2019
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff yr hysbysfyrddau eu hadolygu i ddarparu gwybodaeth hybu iechyd megis iechyd meddwl	4.2 Gwybodaeth i Gleifion	Metron i archebu hysbysfyrddau newydd i'w gosod yn yr ardal glinigol ar ôl cwblhau'r gwaith adnewyddu.	Metron Bydwreigiaeth	Rhagfyr 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
ôl-enedigol, mentrau cyfeillgar i fabanod UNICEF a grwpiau cymorth.		Bydwragedd arbenigol i sicrhau bod cynnwys yr hysbysfwrdd yn benodol i'r ardal glinigol.	Dirprwy Bennaeth Bydwreigiaeth	
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth am y staff yn cael ei harddangos i'r cleifion.	4.2 Gwybodaeth i Gleifion	Hysbysfwrdd i'w osod yn yr ardal glinigol er mwyn rhoi gwybodaeth am y staff. Sicrhau bod ffotograffau o bob aelod a'u bod yn cael eu gosod ar yr hysbysfwrdd yn ystod eu horiau ar ddyletswydd.	Metron Bydwreigiaeth	Rhagfyr 2019
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff gwybodaeth yn nodi sut y gall cleifion a theuluoedd/gofalwyr godi pryder am eu gofal ei harddangos yn glir a'i bod ar gael yn rhwydd.	6.3 Gwrando a Dysgu o Adborth	Stoc o daflenni Gweithio i Wella wedi'i harchebu ar gyfer yr ardaloedd clinigol. Prif Nyrsys y Ward i gael gwybod pwy sy'n gallu ailgyflenwi stociau o daflenni er mwyn sicrhau bod taflenni ar gael yn yr ardaloedd clinigol.	Tîm Llywodraethu Prif Nyrsys y Ward	Cwblhawyd Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cleifion a theuluoedd yn cael gwybod am y Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) sy'n cynnig gwasanaethau eirioli a chymorth.	6.3 Gwrando a Dysgu o Adborth	Hysbysfwrdd i'w osod yn yr ardaloedd clinigol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei harddangos yn glir a'i bod ar gael i helpu menywod a theuluoedd i godi pryder, gan gynnwys sut i gysylltu â'r Cyngor Iechyd Cymuned.	Prif Nyrs y Ward/yr Adran Ystadau	Rhagfyr 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Gwybodaeth i'w rhoi ym mhob pecyn cychwynnol er mwyn rhoi gwybod i deuluoedd sut y gallant godi pryder a darparu manylion cyswllt y Cyngor Iechyd Cymuned.		
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff cynhyrchion glanhau a bwyd eu storio'n briodol.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Hysbysiad diogelwch i bob aelod o'r staff am bwysigrwydd storio cynhyrchion glanhau a bwyd yn ddiogel.	Metron Bydwreigiaeth	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y risgiau sy'n gysylltiedig â'r gwaith adnewyddu presennol eu hasesu a'u monitro ac y gweithredir arnynt er mwyn cynnal diogelwch.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Bwrdd prosiect yr Uned Gofal Trosiannol misol i drafod pob risg sy'n gysylltiedig â'r gwaith adnewyddu. Rheoli risgiau wrth iddynt gael eu cyfleu i'r Pennaeth Bydwreigiaeth a'r arweinydd Clinigol a'u rhaeadru i'r timau clinigol.	Rheolwr yr Uned Cyflenwi Gwasanaethau/ Pennaeth Bydwreigiaeth Arweinydd Prosiect/ Pennaeth Bydwreigiaeth/	Cwblhawyd Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			Arweinydd Clinigol	Cwblhawyd
		Pob achos o gau system gritigol wedi cael ei raeadru i'r tîm clinigol a'r risg wedi cael ei hasesu cyn y gwaith cytunedig.	Arweinydd Prosiect/ Pennaeth Bydwreigiaeth/ Arweinydd Clinigol/Rheolwyr Ardaloedd Clinigol	
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod drysau'n parhau i gael eu cau'n ddiogel er mwyn cynnal diogelwch ym mhob rhan o'r uned.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Rhannwyd yr adborth cychwynnol uniongyrchol gan AGIC â'r staff yn un o gyfarfodydd yr Uned ym mis Awst 2019.	Pennaeth Bydwreigiaeth	Cwblhawyd
		Pwysigrwydd diogelwch a rheoli heintiau rhwng y ward esgor a'r theatr i'w rhannu ar adegau trosglwyddo staff am fis. Cadw'r drysau ar gau.		Medi 2019 Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Rhifau'r bysellbad i'w rhannu â phob aelod o'r staff a'u storio mewn lleoliad diogel yn yr ardaloedd clinigol.		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff achosion o ysgogi cyfnod esgor eu rheoli yn briodol a bod staff addas ar gael i ddiwallu anghenion cleifion.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Gweithgor Ysgogi Cyfnodau Esgor y Tîm Amlddisgyblaethol wedi'i sefydlu. Diweddaru canllaw IOL er mwyn cynnwys y meini prawf perthnasol yn unol â'r dystiolaeth. Diweddaru'r daflen wybodaeth i fenywod. Gwella'r broses o fonitro achosion baner goch ac adroddiadau Datix mewn cysylltiad â phob achos o oedi wrth ddarparu gofal neu dorri safonau arfer gorau (NICE, Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr).	Arweinydd Llywodraethu Obstetrig/Dirprwy Bennaeth Bydwreigiaeth	Cwblhawyd Hydref 2019 Hydref 2019 Hydref 2019
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau cysondeb ac eglurder o ran ffynonellau gwybodaeth sy'n berthnasol i gleifion, gan gynnwys gwybodaeth fyw a defnyddio data ôl-weithredol.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Yr arweinydd gwybodaeth data i gydgysylltu â Hyb Busnes Uned Cyflenwi Gwasanaethau Singleton er mwyn parhau i weithio ar y Dangosfwrdd mamolaeth fel bod y wybodaeth mor gyfredol â phosibl drwy drosglwyddo	Arweinydd gwybodaeth data/Hyb Busnes yr Uned Cyflenwi Gwasanaethau	Rhagfyr 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		data'n electronig ar gyfer meysydd lle mae hyn yn bosibl.		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod unrhyw staff sy'n cyflawni dyletswyddau mewn theatrau a'r adran adfer wedi cael yr hyfforddiant priodol a'u bod yn gymwys i gyflawni'r rôl hon.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Gweithgor y Tîm Amlddisgyblaethol wedi'i sefydlu i wneud y canlynol: • Adolygu'r gallu i gyflenwi ar gyfer tîm theatr 24/7 yr adran obstetreg. • Rhestr o doriadau cesaraidd dewisol wedi'u staffio'n llawn gan y tîm theatr i'w chynnwys yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig oherwydd yr effaith ariannol. • Materion theatr i'w cyflwyno yng Nghyfarfod Ansawdd a Diogelwch Uned Cyflenwi Gwasanaethau Ysbyty Singleton er mwyn iddynt gael eu derbyn ar y gofrestr risg. • Darparu hyfforddiant PROMPT i bob aelod o'r staff mamolaeth bob blwyddyn – adroddiad ar y flwyddyn 1af ym mis Ionawr 2020. Presenoldeb ar gyrsiau	Rheolwr y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Llawfeddygol Pennaeth Bydwreigiaeth Bydwraig Datblygu Proffesiynol Fforwm Hyfforddiant ac Addysg	Cwblhawyd Medi 2019 Ionawr 2020 Rhagfyr 2019 Ionawr 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		hyfforddiant ar y trywydd iawn ar hyn o bryd i gyflawni >90%. • Pob aelod perthnasol o'r staff i gwblhau dadansoddiad o anghenion hyfforddiant gan ddefnyddio dull hunanasesu mewn cysylltiad â theatrau ac adfer menywod yn dilyn genedigaeth drwy lawdriniaeth. Canfyddiadau'r dadansoddiad o anghenion hyfforddiant i'w cynnwys mewn pedwerydd diwrnod hyfforddiant gorfodol (mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn darparu tri diwrnod hyfforddiant gorfodol y flwyddyn ar gyfer staff bydwreigiaeth). Bydd yn cynnwys gofal yn yr ardal adfer yn dilyn gofal epidwral/ar y cefn a gofal ar ôl llawdriniaeth.	Fforwm Hyfforddiant ac Addysg	
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff cyffuriau a reolir eu gwirio yn gyson.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Archwiliadau sicrwydd misol wedi'u cwblhau, ynghyd â'r camau gweithredu perthnasol er mwyn sicrhau arfer diogel.	Pennaeth Bydwreigiaeth	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff meddyginiaeth y claf ei hun ei storio'n ddiogel.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	System Hunanfeddyginiaethu i'w defnyddio'n effeithiol a'i harchwilio a'i monitro i sicrhau cydymffurfiaeth. Bydwraig i gymryd cyfrifoldeb am feddyginiaeth y claf ei hun lle nad oes cwpwrdd wedi'i gloi ar gael ar gyfer System Hunanfeddyginiaethu. Nodyn briffio diogelwch wedi'i rannu.	Metron Bydwreigiaeth Metron Bydwreigiaeth	Rhagfyr 2019 Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried rhoi hyfforddiant ar anffurfio organau cenhedlu benywod i bob aelod o staff y ward a bod y staff yn ymwybodol o'r llwybr Cymru Gyfan perthnasol.	3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol	Cafodd pob aelod o'r staff a oedd yn cael ei gyflogi yn 2017/18 y wybodaeth ddiweddaraf am anffurfio organau cenhedlu benywod ar y rhaglen hyfforddiant gorfodol flynyddol. Cynnwys hyfforddiant ar reoli achosion o anffurfio organau cenhedlu benywod yn y rhaglen ar gyfer 2020/21 (cylchred tair blynedd).	Pennaeth Bydwreigiaeth	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Enwi'r Prif Obstetregydd ar gyfer rheoli gofal menywod sydd wedi cael profiad o anffurfio organau cenhedlu o fewn y Bwrdd Iechyd.		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y lefelau staffio a chyflenwi meddygol eu hadolygu i sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn effeithiol er mwyn diwallu anghenion y gwasanaeth.	3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol	Caiff y lefelau staffio meddygol eu monitro yn unol â safonau Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio'n llawn. Caiff lefelau staffio bydwreigiaeth eu monitro yn unol â Birthrate Plus (BR+). Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio'n llawn. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio'n llawn.	Dd/G	Dd/G
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y cynhelir adolygiad o'r sefydliad er mwyn sicrhau bod staff priodol mewn swyddi, a fyddai'n sicrhau bod modd cynnal hyfforddiant gorfodol/arall, ymchwiliadau i ddigwyddiadau/pryderon ac archwiliadau.	3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol	Cynhelir adolygiad BR+ rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2019 er mwyn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn dal i gydymffurfio'n llwyr. Caiff presenoldeb staff mewn diwrnodau hyfforddiant gorfodol ei fonitro drwy gydol y flwyddyn a chyflwynir adroddiad arno	Pennaeth Bydwreigiaeth	Rhagfyr 2019 Mawrth 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		bob blwyddyn – roedd cydymffurfiaeth ar gyfer 2018/19 yn > 90% o ran presenoldeb. Caiff y broses o reoli perfformiad ar gyfer adolygiadau o ddigwyddiadau a chwynion ei monitro a chyflwynir adroddiadau arni drwy gyfarfodydd Uned Cyflenwi Gwasanaethau Ysbyty Singleton gyda'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am uwchgyfeirio a goruchwylio materion. Adolygu adnodd y tîm llywodraethu yn ystod y broses o ailstrwythuro gwasanaethau mamolaeth o fewn y Bwrdd Iechyd. Ambr yw statws yr adnodd llywodraethu statws o hyd ar hunanasesiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn erbyn canfyddiadau Adroddiad y Gwasanaeth Mamolaeth ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.	Fforwm Hyfforddiant ac Addysg Tîm Rheoli'r Uned Cyflenwi Gwasanaethau/ Bwrdd Gweithredol Tîm Rheoli'r Uned Cyflenwi Gwasanaethau/ Pennaeth Bydwreigiaeth	Cwblhawyd Rhagfyr 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd roi gwybod i AGIC am y gwaith a wneir gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru er mwyn lleihau oedi wrth gludo cleifion i'r ysbyty o leoliadau cymunedol.	3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol	Y Fydwraig Ymgynghorol sy'n arwain y broses o gyfathrebu ag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru er mwyn lleihau amseroedd trosglwyddo o Ganolfan Enedigaeth Castell-nedd Port Talbot a lleoliadau cymunedol er mwyn sicrhau diogelwch y fam a'r baban. Lluniwyd Map Trosglwyddo er gwybodaeth i bob aelod perthnasol o'r staff Cyflwyno SBAR i gyfarfod Ansawdd a Diogelwch Uned Cyflenwi Gwasanaethau Ysbyty Singleton er mwyn adolygu'r sgôr risg a'i gwella (y sgôr risg bresennol yw 12)	Bydwraig Ymgynghorol/ Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru/Pennaeth Bydwreigiaeth Bydwraig Ymgynghorol Tîm Rheoli'r Uned Cyflenwi Gwasanaethau/ Pennaeth Bydwreigiaeth	Cwblhawyd Cwblhawyd Medi 2019
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y cynhelir cyfrinachedd ac y caiff pob un o'r dogfennau sy'n	3.4 Technoleg Llywodraethu	Cynnwys materion Llywodraethu Gwybodaeth yng nghylchlythyr mis Medi.	Goruchwylydd Clinigol Bydwragedd	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
berthnasol i gleifion eu storio'n ddiogel bob amser.	Gwybodaeth a Chyfathrebu	Cyflwyno adborth o adroddiad AGIC yng nghyfarfod yr uned • canfyddiadau cychwynnol • adroddiad llawn (ar ôl ei gyhoeddi) Gosod posteri yn yr ardaloedd clinigol ar ganllawiau Llywodraethu Gwybodaeth. Storio trolïau nodiadau mewn ardaloedd i staff yn unig. Rhoi gwybod am bob digwyddiad o dorri rheolau Llywodraethu Gwybodaeth.	Pennaeth Bydwreigiaeth Metron Bydwreigiaeth/ Gweinyddwr Llywodraethu Prif Nyrsys y Ward Pennaeth Bydwreigiaeth	Cwblhawyd Hydref 2019 Hydref 2019 Cwblhawyd Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff pob polisi a gweithdrefn glinigol sy'n ymwneud â bydwreigiaeth a materion meddygol sydd ar y fewnrwyd eu hadolygu a'u diweddaru.	3.4 Technoleg Llywodraethu Gwybodaeth a Chyfathrebu	Pob aelod o'r staff wedi cael gwybod sut i gael gafael ar bolisïau yn ystod eu rhaglen sefydlu.	Fforwm Hyfforddiant ac Addysg	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Rhoddwyd rhestr o bolisïau nad ydynt yn gyfredol i gadeiryddion fforymau clinigol er mwyn eu hadolygu neu eu harchifo os nad ydynt yn berthnasol mwyach.	Gweinyddwr Llywodraethu/ Cadeiryddion Fforymau Clinigol	Medi 2019
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y rheolir y system perfformiad clinigol a llywodraethu (dangosfwrdd mamolaeth) yn effeithiol fel adnodd i gefnogi'r broses o ddarparu gofal diogel. Yn benodol, mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried a monitro ansawdd/dilysrwydd y data a chymryd camau priodol mewn ymateb i ddangosyddion perfformiad.	3.4 Technoleg Llywodraethu Gwybodaeth a Chyfathrebu	Dangosfwrdd yn cael ei ddatblygu er mwyn sicrhau ansawdd/dilysrwydd. Mae'r gweinyddwr data yn aelod o'r tîm llywodraethu ac mae ei rôl yn cynnwys chwe awr ar gyfer rheoli data. Diogelir y chwe awr ar gyfer rheoli data er mwyn gwella'r broses o reoli data a chynnal y dangosfwrdd. Mae risg yn gysylltiedig â'r adnodd llywodraethu cyffredinol gan y bydd hyn yn lleihau'r adnodd llywodraethu ymhellach. Ar yr agenda yng nghyfarfod Ansawdd a Diogelwch Uned Cyflenwi Gwasanaethau Ysbyty Singleton.	Arweinydd gwybodaeth data/Hyb Busnes yr Uned Cyflenwi Gwasanaethau Tîm Rheoli'r Uned Cyflenwi Gwasanaethau Singleton/ Pennaeth Bydwreigiaeth	Hydref 2019 Rhagfyr 2020 Hydref 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Dangosfwrdd mamolaeth i gael ei gyflwyno ym mhob cyfarfod Sicrwydd a Dysgu, sesiwn archwilio, fforwm bydwreigiaeth ymgynghorol a phroffesiynol er mwyn ei rannu'n ehangach â'r timau.	Arweinydd Obstetrig Clinigol/Pennaeth Bydwreigiaeth/ Arweinydd Archwilio	
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion cleifion yn cynnwys labeli adnabod cleifion priodol a dyddiadau ar bob tudalen.	3.4 Technoleg Llywodraethu Gwybodaeth a Chyfathrebu	Rhannu canfyddiadau AGIC drwy gyfarfodydd proffesiynol a chylchlythyr. Rhannu briff diogelwch â phob aelod perthnasol o'r staff mamolaeth er mwyn eu hatgoffa o bwysigrwydd adnabod cleifion a rhoi dyddiadau ar bob tudalen o'r cofnodion.	Dirprwy Bennaeth Bydwreigiaeth	Medi 2019
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y broses o gadw cofnodion ei hadolygu ac y bydd canfyddiadau archwilio perthnasol yn dylanwadu ar ddysgu a newidiadau.	3.4 Technoleg Llywodraethu Gwybodaeth a Chyfathrebu	Cynnwys yn yr archwiliad blynyddol o'r broses o gadw cofnodion gwestiwn am sicrhau bod gwybodaeth sy'n adnabod cleifion a dyddiad yn weladwy ar bob tudalen yn y cofnodion.	Dirprwy Bennaeth Bydwreigiaeth	Mawrth 2020
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y rhoddir dull mwy strwythuredig ar waith ar gyfer cyfarfodydd trosglwyddo	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Adolygu'r trefniadau trosglwyddo amlddisgyblaethol presennol a hwyluso'r broses o roi trefniadau trosglwyddo mwy effeithiol ar waith. Yn dilyn y newid, caiff ei effeithiolrwydd ei archwilio. Sicrhau bod cymorth clerigol ar gael yn ystod y broses drosglwyddo er mwyn atal galwadau ffôn ac ateb seinwyr gan fenywod/perthnasau sy'n ceisio cael mynediad i'r ward esgor yn ystod yr amser hwn rhag tarfu ar y cyfarfodydd hyn. Mae ymgynghoriad ar waith ar hyn o bryd ag Adnoddau Dynol i newid lleoliadau gwaith derbynyddion ward er mwyn sicrhau bod derbynnydd ar gael drwy'r dydd a'r nos ar y Ward Esgor yn unol ag argymhellion Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a Gynaecolegwyr.	Prif Obstetregydd Clinigol y Ward Esgor Arweinydd yn ystod genedigaeth ar gyfer y Ward Esgor Metron Bydwreigiaeth	Ionawr 2020 Hydref 2019
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y gofrestr risg ei hadolygu a'i diweddaru'n	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Cyfarfod cofrestr risg misol.	Arweinydd Clinigol/Pennaeth Bydwreigiaeth/	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
rheolaidd, a bod y staff yn ymwybodol o'r broses ar gyfer uwchgyfeirio risgiau.		Cyflwyno'r gofrestr risg mamolaeth yn fforwm Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd Iechyd. Amlygu pwysigrwydd uwchgyfeirio risgiau i'w cynnwys ar y gofrestr risg mamolaeth yn y fforwm bydwreigiaeth broffesiynol, cyfarfod o ymgynghorwyr a chylchlythyr. Y tîm llywodraethu i wneud cyflwyniad i bob aelod o'r staff yn ystod y broses sefydlu.	Bwrdd Gweithredol Arweinydd Clinigol/Pennaeth Bydwreigiaeth	Medi 2019 Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff sy'n gyfrifol am ymchwilio i ddigwyddiadau yn cael digon o amser i gwblhau'r broses.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Nodwyd bwlch yn yr adnoddau llywodraethu sydd wedi cael ei uwchgyfeirio i'r Uned Cyflenwi Gwasanaethau i ymdrin ag ef o fewn yr adolygiad o strwythur yr Uned Famolaeth. Cyflwyno yng nghyfarfod Ansawdd a Diogelwch Uned Cyflenwi Gwasanaethau Ysbyty Singleton.	Tîm Rheoli'r Uned Cyflenwi Gwasanaethau Pennaeth Bydwreigiaeth	Medi 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff hyfforddiant ychwanegol ar adrodd ar ddigwyddiadau/Datix ei gwblhau er mwyn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r broses ar gyfer uwchgyfeirio risgiau.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Cytuno ar gyflwyniad ar gyfer hyfforddiant diweddaru ar Datix er mwyn dangos tystiolaeth o'r cysylltiad â'r gofrestr risg yn y rhaglen hyfforddiant gorfodol ar gyfer 2020/2021.	Dirprwy Bennaeth Bydwreigiaeth/ Fforwm Hyfforddiant ac Addysg	Rhagfyr 2019
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y rhennir cylchlythyrau a chofnodion cyfarfodydd yn briodol â'r staff.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Caiff yr hyn a ddysgir o ddigwyddiadau, archwiliadau ac arfer da ei rannu â phob aelod o'r staff drwy gylchlythyr risg, sesiynau briffio diogelwch ac adborth o'r cyfarfod risg misol. Cynnal adolygiad bach o'r hyn y mae'r staff yn ei gofio o'r ohebiaeth dysgu ac arfer da i fonitro effeithiolrwydd.	Goruchwylwyr Clinigol Bydwragedd/ goruchwylwyr addysgol (meddygon)	Rhagfyr 2019
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y rhennir yr hyn a ddysgir o ddigwyddiadau, archwiliadau ac arfer da yn effeithiol â phob aelod o'r staff.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Caiff yr hyn a ddysgir o ddigwyddiadau, archwiliadau ac arfer da ei rannu â phob aelod o'r staff drwy gylchlythyr risg, sesiynau briffio diogelwch ac adborth o'r cyfarfod risg misol.	Goruchwylwyr Clinigol Bydwragedd/ goruchwylwyr addysgol (meddygon)	Rhagfyr 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Cynnal adolygiad bach o'r hyn y mae'r staff yn ei gofio o'r ohebiaeth dysgu ac arfer da i fonitro effeithiolrwydd.		
Mae'n haid i'r bwrdd iechyd ymchwilio i'r rhesymau dros forâl a llesiant isel ymhlith y timau staff.	7.1 Y Gweithlu	Sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r gwasanaeth llesiant drwy'r broses Arfarniadau ac Adolygiadau Datblygu Personol. Tynnu sylw at bwysigrwydd yr arolwg staff Cymru Gyfan ac annog staff i gymryd rhan ynddo. Cyflwynwyd y system gwarcheidwaid yn y bwrdd iechyd. Amlygwyd eu gwasanaeth yn y fforwm bydwreigiaeth broffesiynol er mwyn i weithwyr band 7 rannu'r wybodaeth â'r staff y maent yn eu rheoli. Gwybodaeth am warcheidwaid ar fewnrwyd y bwrdd iechyd. Gofyn i'r Arweinwyr Clinigol roi gwybod am y cais am fwy o weledd yn yr ardaloedd clinigol. Y Metronau wedi archebu iwnifformau. Gofynnwyd i'r Fydwraig Glinigol arwain ymarfer cyfrinachol yn gofyn i bob aelod	Pennaeth Bydwreigiaeth/ Arweinydd Clinigol	Cwblhawyd Cwblhawyd Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		o'r staff roi sylwadau/awgrymiadau er mwyn gwella'r gwasanaeth yn eu man gwaith. Trefnwyd cyfarfod i roi adborth ar y canfyddiadau a chynllunio camau gweithredu mewn partneriaeth.	Metron Bydwreigiaeth	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r lefelau staffio ar gyfer cymorth i fydwragedd a chymorth meddygol er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn effeithiol, ac yn diwallu anghenion y gwasanaeth.	7.1 Y Gweithlu	Cwblhawyd yr adolygiad BR+ ddiwethaf yn 2018. Caiff ei gwblhau eto 2019 (Hydref – Rhagfyr) yn sgil y newid i ffiniau er mwyn amlygu a oes unrhyw ddiffygion yn lefelau staffio bydwreigiaeth yr uned Lefelau staffio obstetrig yn cydymffurfio â safonau Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr. Cynhelir gwiriad aciwtedd bob pedair awr ar y ward esgor er mwyn amlygu unrhyw brinder yn y lefelau staffio o ran angen clinigol.	Pennaeth Bydwreigiaeth Cydgysylltydd y Ward Esgor	Rhagfyr 2019 Cwblhawyd Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried effaith lefelau staffio yn y gymuned wrth alw ar fydwragedd i weithio yn yr ysbyty.	7.1 Y Gweithlu	Cynlluniwyd ymgynghoriad gyda phob bydwraig i adolygu'r systemau ar alw, patrymau sifftiau yn y gymuned a'r broses o reoli gwyliau blynyddol.	Pennaeth Bydwreigiaeth	Mawrth 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Cynhaliwyd cyfarfod ag Adnoddau Dynol i gefnogi a chynllunio'r broses ym mis Awst 2019. Proses rheoli salwch gadarn a chefnogol yn unol â'r polisi cynnal presenoldeb yn y gwaith.	Metronau Bydwreigiaeth/ Obstetryddion	Cwblhawyd
Ystyried y pryderon a godwyd gan y staff o ran oedi'r broses o ysgogi cyfnod esgor o ganlyniad i brinder staff.	7.1 Y Gweithlu	Gweithgor 'ysgogi cyfnodau esgor' y Tîm Amlddisgyblaethol wedi'i sefydlu. Diweddaru canllaw IOL er mwyn cynnwys y meini prawf perthnasol yn unol â'r dystiolaeth. Diweddaru'r daflen wybodaeth i fenywod. Gwella'r broses o fonitro achosion baner goch ac adroddiadau Datix mewn cysylltiad â phob achos o oedi wrth ddarparu gofal neu dorri safonau arfer gorau (NICE, Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr).	Arweinydd Clinigol/Dirprwy Bennaeth Bydwreigiaeth	Cwblhawyd Hydref 2019 Hydref 2019 Hydref 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod lefelau cydymffurfiaeth â gofynion hyfforddiant yn cael eu gwella a'u cynnal.	7.1 Y Gweithlu	Roedd cydymffurfiaeth â hyfforddiant ymhlith y staff Bydwreigiaeth yn > 90% yn 2018/2019. Bydd y broses o fonitro presenoldeb yn parhau drwy gydol 2019/2020. Mae cydymffurfiaeth o ran hyfforddiant e-ddysgu gorfodol yn 50% ar hyn o bryd. Mae pedwerydd diwrnod astudio gorfodol ychwanegol wedi'i gynllunio ar gyfer 2020/21 a fydd yn cynnwys archebu labordy dysgu (hyb cyfrifiaduron) er mwyn rhoi'r amser i'r staff fodloni'r gofynion e-ddysgu. Bydwraig datblygu ymarfer i drefnu sesiynau ad-hoc yn ystafelloedd cyfrifiaduron labordai dysgu tan 2020 er mwyn dechrau ar y broses.	Fforwm Hyfforddiant ac Addysg Fforwm Hyfforddiant ac Addysg	Mawrth 2020 Medi 2019
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff sianeli cyfathrebu eu diffinio'n glir, er mwyn i'r staff gael y wybodaeth i gyd am faterion neu newidiadau sy'n effeithio arnyn nhw a'u gwaith.	7.1 Y Gweithlu	Cynnal cyfarfodydd tîm a chyfarfodydd uned rheolaidd er mwyn sicrhau bod y staff yn cael cyfle i ddysgu am newidiadau a all effeithio ar eu gwaith.	Pennaeth Bydwreigiaeth/ Arweinydd Clinigol	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Lanlwytho canllawiau AAU/ADAU i WISDOM er mwyn i bob aelod o'r staff ddeall y meini prawf atgyfeirio.	Tîm Llywodraethu	Medi 2019
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod nifer digonol o staff ar gael sydd wedi cael hyfforddiant ar wagio pyllau geni yn ddiogel, er mwyn cefnogi'r broses o ddarparu gofal yn yr uned a arweinir gan fydwragedd.	7.1 Y Gweithlu	Cytunwyd ar gynllun hyfforddiant ar gyfer y tîm amlddisgyblaethol ar ddefnyddio pyllau geni a'u gwagio mewn argyfwng ac mae wedi'i roi ar waith. Darparwyd y sesiwn 1af ym mis Medi 2019.	Bydwraig Ymgynghorol	Medi 2019

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras):

Teitl swydd:

Dyddiad: